

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2007 Rhif 376 (Cy.36)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid  
(Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007**

*Wedi'u gwneud* - - 13 Chwefror 2007  
*Yn dod i rym* - - 14 Chwefror 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno ac eithrio mewn perthynas â ffioedd a godir gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac mewn perthynas â'r ffioedd hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(3) a chyda chydysyniad y Trysorlys, mae'n gwneud y Rheoliadau a ganlyn—

**RHAN 1**

Cyflwyniad

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 14 Chwefror 2007.

**Dehongli**

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “amodau mewnforio” (“*import conditions*”) mewn perthynas â chynnyrch, yw—

(a) yr amodau a osodwyd ar gyfer mewnforio'r cynnyrch hwnnw mewn unrhyw Gyfarwyddeb, Penderfyniad neu Reoliad a restrir yn Atodlen 1, gan gynnwys—

---

(1) O.S. 2005/2766.  
(2) 1972 p. 68.  
(3) 1973 p.51.

- (i) gofynion penodol a osodwyd ar gyfer mewnforio'r cynnyrch hwnnw i Aelod-wladwriaeth benodol neu ardal benodol o Aelod-wladwriaeth; ac
- (ii) amodau a osodwyd ar gyfer mewnforio'r cynnyrch hwnnw at ddibenion penodol;
- (b) yr amodau a osodwyd ar gyfer mewnforio'r cynnyrch hwnnw mewn unrhyw Benderfyniad a restrir yn Atodlen 2;
- (c) yr amodau ynglŷn â'r wlad y mae'r cynnyrch yn dod ohoni yn wreiddiol fel y'u gosodwyd mewn unrhyw restr o drydydd gwledydd neu rannau o drydydd gwledydd y caniateir mewnforio cynhyrchion penodedig ohonynt a honno'n restr a dynnwyd o dan baragraff 1 o Erthygl 11 o Reoliad (EC) Rhif 854/2004; ac
- (ch) yr amodau ynglŷn â sefydliad tarddiad y cynnyrch fel y'u gosodwyd mewn unrhyw restr o sefydliadau y caniateir mewnforio cynhyrchion penodedig ohonynt a honno'n rhestr a dynnwyd o dan baragraff 1 o Erthygl 12 o Reoliad (EC) Rhif 854/2004 (sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(4);

ystyr “arolygydd pysgod swyddogol” (“*official fish inspector*”) yw swyddog iechyd amgylcheddol a benodwyd yn arolygydd pysgod swyddogol gan awdurdod lleol o dan reoliad 6(2)(b);

ystyr “yr Asiantaeth” (“*the Agency*”) yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”)—

- (a) pan fo awdurdod iechyd porthladd, yw'r awdurdod iechyd porthladd hwnnw;
- (b) pan na fo unrhyw awdurdod iechyd porthladd, yw cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol yn ôl y digwydd;

mae “cludydd sydd â gofal am y tro” (“*carrier who has charge for the time being*”) dros gynnrych, llwyth neu ranlwyth yn cynnwys gyrrwr unrhyw gerbyd, peilot unrhyw awyren a meistr unrhyw lestr (ond nid gyrrwr unrhyw drên) sy'n cludo'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth hwnnw;

ystyr “y Cod Tollau” (“*the Customs Code*”) yw Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2913/92 (sy'n sefydlu'r Cod Tollau Cymunedol)(5);

ystyr “y Comisiynwyr” (“*the Commissioners*”) yw Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;

ystyr “Cyfarwyddeb 97/78/EC” (“*Directive 97/78/EC*”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC (sy'n gosod yr egwyddorion sy'n llywodraethu'r dull o drefnu gwiriadau milfeddygol ar gynhyrchion sy'n dod i'r Gymuned o drydydd gwledydd)(6);

ystyr “cynhyrchion pysgodfeydd” (“*fishery products*”) yw pob anifail dŵr môr a dŵr croyw sy'n wyllt neu sydd wedi'i ffermio, p'un a yw'n fyw ai peidio, a holl ffurfiau, rhannau a chynhyrchion bwydadwy yr anifeiliaid hynny, gan gynnwys—

- (a) anifeiliaid dyframaeth a chynhyrchion dyframaeth fel y diffinnir “*aquaculture animals*” ac “*aquaculture products*” yn Erthygl 2 o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/67/EEC (ynglŷn ag amodau iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu'r broses o roi anifeiliaid dyframaeth a chynhyrchion dyframaeth ar y farchnad)(7);

(4) OJ Rhif L139, 30.04.2004, t. 206, fel y'i diwygiwyd gan Gorigendwm i Reoliad (EC) Rhif 854/2004 (OJ Rhif L226, 25.06.2004, t. 83).

(5) OJ Rhif L302, 19.10.92, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 648/2005 (OJ Rhif L117, 4.5.2005, t. 13).

(6) OJ Rhif L24, 30.1.98, t. 9, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor (gweler Corigendwm OJ Rhif L191, 28.5.2004, t. 1).

(7) OJ Rhif L46, 19.2.91, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 806/2003 (OJ Rhif L122, 16.5.2003, t. 1).

- (b) molysgiaid dwyragennog sy'n bwyta drwy hidlo; ac
- (c) ecinodermiaid, tiwnigogion a gastropodau morol sydd wedi'u bwriadu ar gyfer eu bwyta gan bobl,

ond nid yw'n cynnwys mamaliaid dyfrol, ymlusgiaid a llyffantod, a rhannau o'r anifeiliaid hynny;

ystyr "cynnyrch" ("*product*") yw—

- (a) unrhyw gynnyrch sy'n dod o anifeiliaid ac a restrir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2002/349/EC (sy'n pennu'r rhestr o gynhyrchion sydd i'w harchwilio wrth safleoedd arolygu ar y ffin o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC)(8);
- (b) unrhyw borfa, meillion, liwsérn neu ffawlys a sychwyd naill ai'n naturiol neu'n artiffisial, ac unrhyw gynnyrch a geir drwy sychu unrhyw borfa, meillion, liwsérn neu ffawlys felly; ac
- (c) unrhyw yd gwyrdd sydd wedi'i sychu naill ai'n naturiol neu'n artiffisial ac unrhyw gynnyrch (ac eithrio grawn) a geir drwy sychu unrhyw yd gwyrdd,

ond nid yw'n cynnwys cynhyrchion bwyd cyfansawdd fel y'u pennir yn Erthygl 3 o Benderfyniad y Comisiwn 2002/349/EC;

ystyr "cynnyrch a drawslwythwyd" ("*transhipped product*") yw cynnyrch Erthygl 9 sydd wedi'i drawslwytho neu wedi'i ddadlwytho yn y ffordd a ddisgrifir (mewn perthynas â llwythi) yn Erthygl 9(1) o Gyfarwyddeb 97/78/EC wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer ei gyflwyno;

ystyr "cynnyrch a ddychwelwyd" ("*returned product*") yw cynnyrch a allforiwyd yn wreiddiol o diriogaeth dollau'r Gymuned ac a gaiff ei ddychwelyd yno am ei fod wedi'i wrthod gan drydedd wlad;

ystyr "cynnyrch Erthygl 9" ("*Article 9 product*") yw cynnyrch o drydedd wlad y deuir ag ef gyntaf i'r tiriogaethau perthnasol wrth un safle arolygu ar y ffin ond y bwriedir ei fewnforio drwy un arall, fel y'i disgrifir (mewn perthynas â llwythi) yn Erthygl 9(1) o Gyfarwyddeb 97/78/EC, p'un a yw'r cynnyrch wedi'i drawslwytho neu wedi'i ddadlwytho wrth y safle arolygu cyntaf ar y ffin ai peidio;

ystyr "cynnyrch nad yw'n cydymffurfio" ("*non-conforming product*") yw cynnyrch nad yw'n cydymffurfio â'r amodau mewnforio;

ystyr "cynnyrch tramwy" ("*transit product*") yw cynnyrch sy'n tarddu o drydedd wlad ac, yn ôl yr wybodaeth a anfonwyd ymlaen llaw ac y cyfeirir ati yn Erthygl 3(3) o Gyfarwyddeb 97/78/EC, a fydd yn destun tramwy;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

ystyr "dogfen berthnasol" ("*relevant document*") yw unrhyw ddogfen ofynnol ac unrhyw dystysgrif fasnachol neu ddogfen fasnachol neu unrhyw dystysgrif arall neu ddogfen arall sy'n ymwneud â chynnyrch, gan gynnwys maniffest unrhyw lestr fordwyol neu awyren;

ystyr "dogfen fynediad filfeddygol gyffredin" ("*common veterinary entry document*") yw dogfen ar y ffurf a geir yn Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 136/2004 (sy'n gosod gweithdrefnau ar gyfer gwiriadau milfeddygol wrth safleoedd arolygu Cymunedol ar y ffin a hynny ar gynhyrchion a fewnforir o drydydd gwledydd)(9);

ystyr "dogfen ofynnol" ("*required document*") yw unrhyw dystysgrif filfeddygol wreiddiol, dogfen filfeddygol wreiddiol neu ddogfen wreiddiol arall sy'n ofynnol mewn perthynas â

(8) OJ Rhif L121, 8.5.2002, t. 6, fel y'i darllenir gyda Rheoliadau'r Comisiwn (EC) 136/2004 (OJ Rhif L21, 28.1.2004, t. 11) ac (EC) Rhif 745/2004 (OJ Rhif L122, 26.4.2004, t. 1).

(9) OJ Rhif L136, 22.01.2004, t. 11.

chynnyrch yn rhinwedd unrhyw Gyfarwyddeb, Penderfyniad neu Reoliad a restrir yn Atodlen 1;

ystyr “gweithredydd” (“operator”)—

- (a) mewn perthynas â safle arolygu ar y ffin, yw'r person sy'n darparu mangre a chyfleusterau eraill ar gyfer cyflawni gwiriadau milfeddygol wrth y safle arolygu hwnnw ar y ffin; a
- (b) mewn perthynas â sefydliad tarddiad Cymunedol neu sefydliad cyrchfan, yw'r person sy'n ei feddiannu at ddibenion ei fusnes;

ystyr “gwiriad adnabod” (“identity check”) yw gwiriad drwy arolygiad gweledol i sicrhau bod y tystysgrifau milfeddygol neu'r dogfennau milfeddygol neu ddogfennau eraill sy'n mynd gyda llwyth yn cyfateb i'r cynhyrchion sy'n ffurfio'r llwyth, a hwnnw'n wiriad a gyflawnir yn unol ag Erthygl 4(4)(a) o Gyfarwyddeb 97/78/EC;

ystyr “gwiriad dogfennol” (“documentary check”) yw'r archwiliad o'r tystysgrifau milfeddygol neu'r dogfennau milfeddygol neu ddogfennau eraill sy'n mynd gyda llwyth, ac sy'n cael ei gyflawni yn unol ag Erthygl 4(3) o Gyfarwyddeb 97/78/EC ac Atodiad I i Reoliad (EC) Rhif 136/2004;

ystyr “gwiriad ffisegol” (“physical check”) yw gwiriad ar gynnyrch (a all gynnwys gwiriadau o'r deunydd pacio a'r tymheredd a hefyd samplu a phrofi mewn labordy) sy'n cael ei gyflawni yn unol ag Erthygl 4(4)(b) o Gyfarwyddeb 97/78/EC ac Atodiad III iddi, ac, yn achos profi mewn labordy, Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 136/2004;

ystyr “gwiriad milfeddygol” (“veterinary check”) yw unrhyw wiriad y darperir ar ei gyfer yng Nghyfarwyddeb 97/78/EC gan gynnwys gwiriad dogfennol, gwiriad adnabod neu wiriad ffisegol;

ystyr “llwyth” (“consignment”) yw swm o gynhyrchion o'r un math a gwmpesir gan yr un dystysgrif filfeddygol neu ddogfen filfeddygol, neu ddogfen arall y darparwyd ar ei chyfer drwy ddeddfwriaeth filfeddygol, a'r rheini'n gynhyrchion sy'n cael eu cludo â'r un cyfrwng cludo ac sy'n dod o'r un drydedd wlad neu'r un rhan o drydedd wlad;

mae “mangre” (“premises”) yn cynnwys unrhyw adeiladwaith, gosodiad, cynhwysydd neu gyfrwng cludo;

ystyr “mewnforio”, pan fo'n cyfateb i'r enw “import” yn y fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau hyn, yw rhyddhau ar gyfer cylchredeg yn rhydd o fewn ystyr “release for free circulation” yn Erthygl 79 o'r Cod Tollau;

ystyr “milfeddyg swyddogol” (“official veterinary surgeon”) yw milfeddyg a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 6(1)(a) neu gan awdurdod lleol o dan reoliad 6(2)(a);

ystyr “Penderfyniad 2001/881/EC” (“Decision 2001/881/EC”) yw Penderfyniad y Comisiwn 2001/881/EC (sy'n tynnu rhestr o safleoedd arolygu ar y ffin y cytunwyd arnynt ar gyfer gwiriadau milfeddygol ar anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o drydydd gwledydd ac yn diweddarau'r rheolau manwl ynghylch y gwiriadau sydd i'w cyflawni gan arbenigwyr y Comisiwn)(10);

ystyr “perchennog” (“owner”), mewn perthynas â chynnyrch, llwyth neu ranlwyth, yw'r person y mae'r eiddo yn y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth wedi'i freinio ynddo am y tro;

dehonglir “person sy'n gyfrifol dros” (“person responsible for”), mewn perthynas â chynnyrch, llwyth neu ranlwyth, yn unol â rheoliad 3;

ystyr “person y mae'n ymddangos ei fod â gofal” (“person appearing to have charge”), mewn perthynas â chynnyrch, llwyth neu ranlwyth, yw unrhyw berson, gan gynnwys cludydd, y

(10) OJ Rhif L326, 11.12.2001, t.44, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2006/414/EC (OJ Rhif L164, 16.6.2006, t. 27).

mae'n ymddangos bod y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth hwnnw yn ei feddiant, o dan ei warchodaeth neu o dan ei reolaeth;

ystyr "rhanlwyth" ("*part consignment*") yw llwyth sydd wedi'i dorri'n rhannau yn unol ag Erthygl 5 o Reoliad (EC) Rhif 136/2004;

ystyr "Rheoliad (EC) Rhif 136/2004" ("*Regulation (EC) No.136/2004*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 136/2004 (sy'n gosod gweithdrefnau ar gyfer gwiriadau milfeddygol wrth safleoedd arolygu Cymunedol ar y ffin a hynny ar gynhyrchion a fewnforir o drydydd gwledydd)(11);

ystyr "Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002" ("*Regulation (EC) No.1774/2002*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor (sy'n gosod rheolau iechyd ynghylch sgil-gynhyrchion anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta neu eu hyfed)(12);

ystyr "safle arolygu ar y ffin" ("*border inspection post*") yw—

- (a) safle arolygu ar y ffin sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr a gynhwysir yn yr Atodiad i Benderfyniad 2001/881/EC; neu
- (b) safle arolygu ar y ffin yng Ngweriniaeth Gwlad yr Iâ neu Deyrnas Norwy sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr a gynhwysir yn yr Atodiad i Benderfyniad Rhif 86/02/COL Awdurdod Gwylidwriaeth Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA)(13);

ystyr "safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno" ("*border inspection post of introduction*") yw safle arolygu ar y ffin lle y deuir â chynnyrch Erthygl 9 gyntaf i'r tiriogaethau perthnasol;

ystyr "safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan" ("*border inspection post of destination*") yw safle arolygu ar y ffin y bwriedir mewnfario cynnyrch Erthygl 9 drwyddo;

ystyr "sefydliad cyrchfan" ("*destination establishment*"), mewn perthynas â chynnyrch, yw'r sefydliad a nodir yn y cofnod ynglyn â chyfeiriad danfon ("*delivery address*") yn Rhan 1 o'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin;

ystyr "sefydliad tarddiad Cymunedol" ("*Community establishment of origin*") yw'r fangre sydd wedi'i lleoli mewn Aelod-wladwriaeth lle y cymerodd cynnyrch a ddychwelwyd y ffurf yr oedd arno pan gafodd ei allforio'n wreiddiol o'r tiriogaethau perthnasol;

ystyr "storfa longau" ("*ships' store*") yw mangre gaeedig y cyfeirir ati yn Erthygl 13(1)(c), neu warws a gymeradwywyd yn arbennig ac y cyfeirir ati yn Erthygl 13(2)(a), o Gyfarwyddeb 97/78/EC;

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw person a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, awdurdod lleol neu'r Asiantaeth, naill ai'n gyffredinol neu'n arbennig, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn, p'un a yw'n swyddog i'r Cynulliad Cenedlaethol neu i awdurdod lleol neu i'r Asiantaeth ai peidio;

ystyr "y swyddogaethau rheoliadol" ("*the regulatory functions*") yw'r swyddogaethau a neilltuir gan y Rheoliadau hyn i swyddogion awdurdodedig, milfeddygon swyddogol, arolygwyr pysgod swyddogol a chynorthwywyr a benodir o dan reoliad 6;

mae i "tiriogaeth dollau'r Gymuned" yr un ystyr â "*the customs territory of the Community*" yn Erthygl 3 o'r Cod Tollau;

ystyr "y tiriogaethau perthnasol" ("*the relevant territories*") yw ardal sydd wedi'i ffurfio o diriogaethau'r Aelod-wladwriaethau, fel y'u rhestrir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 97/78/

(11) OJ Rhif L21, 28.1.2004, t. 11.

(12) OJ Rhif L273, 10.10.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 208/2006 (OJ Rhif L36, 8.2.2006, t. 25) ac fel y'i darllenir gyda Rheoliadau'r Comisiwn Rhif 811/2003, 812/2003 ac 813/2003 (OJ Rhif L117, 13.5.2003, t. 14, t. 19 a t.22), Penderfyniadau'r Comisiwn 2003/320/EC, 2003/321/EC, 2003/326/EC a 2003/327/EC (OJ Rhif L117, 13.5.2003, t. 24, t. 30, t. 42 a t. 44) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 780/2004 (OJ Rhif L123, 27.4.2004, t. 64).

(13) OJ Rhif L69, 13.3.2003, t. 31.

EC, tiriogaeth Gweriniaeth Gwlad yr Iâ, Tiriogaeth Teyrnas Norwy (ac eithrio Svalbard), Tywysogaeth Andorra, Ynysoedd Ffarøe a Gweriniaeth San Marino;

ystyr “tramwy” (“*transit*”) yw tramwy o un drydedd wlad i un arall, gan fynd drwy un neu ragor o Aelod-wladwriaethau, o dan y weithdrefn dramwy allanol y cyfeirir ati yn Erthyglau 91 i 97 o'r Cod Tollau;

ystyr “trydedd wlad” (“*third country*”) yw gwlad nad yw'n un o'r tiriogaethau perthnasol;

ystyr “warws dollau” (“*customs warehouse*”) yw warws sy'n bodloni amodau Erthyglau 98 i 113 o'r Cod Tollau, a lle y mae nwyddau yn cael eu storio yn ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn yr Erthyglau hynny ynglŷn â chadw mewn warysau tollau; ac

mae i “warws rydd” yr ystyr sydd i “*free warehouse*” ac mae i “parth rhydd” yr ystyr sydd i “*free zone*” yn Nheitol IV, Pennod 3, Adran 1 o'r Cod Tollau.

(2) Mae cynhyrchion y deuir â hwy i Gymru o Weriniaeth Gwlad yr Iâ, ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd, i'w hystyried at ddibenion y Rheoliadau hyn yn rhai y deuir â hwy i mewn o drydedd wlad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae person yn dod â chynnyrch i mewn i diriogaeth neu ardal—

- (a) os yw'n dod ag ef i'r diriogaeth neu'r ardal honno ac os y person hwnnw yw perchennog y cynnyrch;
- (b) os yw'n dod ag ef i'r diriogaeth neu'r ardal honno ac os y person hwnnw yw'r cludydd; neu
- (c) os yw cludydd yn dod ag ef i'r diriogaeth neu'r ardal honno yn unol â chyfarwyddiadau'r person hwnnw.

(4) Nid yw cynnyrch sydd ar gyfrwng cludo sy'n gweithredu'n rhyngwladol, a hwnnw'n gynnyrch y bwriedir i griw neu deithwyr y cyfrwng cludo hwnnw ei fwyta neu ei yfed, yn gynnyrch y daethpwyd ag ef i mewn i diriogaeth neu ardal—

- (a) os nad yw'r cynnyrch wedi'i ddadlwytho; neu
- (b) os yw'n cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol o un cyfrwng cludo sy'n gweithredu'n rhyngwladol i un arall yn yr un porthladd neu faes awyr ac o dan oruchwyliaeth, o fewn yr ystyr yn Erthygl 4(13) o'r Cod Tollau, gan y Comisiynwyr.

(5) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

### Y person sy'n gyfrifol am lwyth

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, dehonglir cyfeiriad at “person sy'n gyfrifol am”, mewn perthynas â chynnyrch, llwyth neu ranlwyth yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Hyd nes—

- (a) y bydd y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth yn cyrraedd safle arolygu ar y ffin yng Nghymru am y tro cyntaf; neu
- (b) yn achos cynnyrch Erthygl 9, neu lwyth neu ranlwyth o gynhyrchion Erthygl 9, y bydd yn cyrraedd safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan yng Nghymru,

y person a bennir ym mharagraff (3) yw'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth.

(3) Y person y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yw —

- (a) y person y cyfeirir ato yn Erthygl 38(1) o'r Cod Tollau sy'n dod â'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth i mewn i diriogaeth dollau'r Gymuned;

- (b) person y cyfeirir ato yn Erthygl 38(2) o'r Cod Tollau sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gludo'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth ar ôl iddo gael ei ddwyn i mewn neu ar ôl iddi gael ei dwyn i mewn i diriogaeth dollau'r Gymuned; neu
- (c) person y gweithredodd y personau y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraffau (a) neu (b) yn ei enw.

(4) O'r amser—

- (a) y mae'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth yn cyrraedd safle arolygu ar y ffin yng Nghymru am y tro cyntaf hyd nes iddo adael y safle arolygu hwnnw ar y ffin; neu
- (b) yn achos cynnyrch Erthygl 9, neu lwyth neu ranlwyth o gynhyrchion Erthygl 9, y mae'n cyrraedd safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan yng Nghymru hyd nes y bydd yn gadael y safle arolygu hwnnw ar y ffin ar gyfer cyrchfan,

y person a bennir ym mharagraff (5) yw'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth.

(5) Y person y cyfeirir ato ym mharagraff (4) —

- (a) yw'r person y gweithredodd y personau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (3)(a) neu (b) yn ei enw;
- (b) os yw'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth yn cael ei storio dros dro, fel y cyfeirir at “temporary storage” yn Erthygl 50 o'r Cod Tollau, yw'r person y cyfeirir ato yn Erthygl 51(2) o'r Cod Tollau sy'n ei ddal mewn man storio dros dro; neu

(c) os yw—

- (i) person y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (a) neu (b) wedi penodi cynrychiolydd yn ei ymwneud â'r awdurdodau tollau, o fewn ystyr “*customs authorities*” yn Erthygl 5 o'r Cod Tollau, a
- (ii) cyfrifoldeb yn cael ei roi i'r cynrychiolydd neu fod y cynrychiolydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros sicrhau bod y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth yn destun gwiriadau milfeddygol,

yw'r cynrychiolydd hwnnw.

(6) Ar ôl—

- (a) i'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth adael safle arolygu ar y ffin y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (4)(a); neu
- (b) iddo adael, yn achos cynnyrch Erthygl 9, neu lwyth neu ranlwyth o gynhyrchion Erthygl 9, y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan,

y person a bennir ym mharagraff (7) yw'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth.

(7) Y person y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (6) yw —

- (a) y person a wnaeth ddatganiad tollau, o fewn ystyr “*customs declaration*” yn Erthygl 64 o'r Cod Tollau, sy'n ymdrin â'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth; neu
- (b) os nad oes unrhyw ddatganiad tollau o'r fath wedi'i wneud eto, y person sy'n alluog i'w wneud.

### **Esemptiad ar gyfer cynhyrchion awdurdodedig a mewnfurion personol**

4.—(1) Nid yw Rhannau 3 i 9 yn gymwys i gynhyrchion y daethpwyd â hwy i Gymru o drydedd wlad gydag awdurdodiad blaenorol y Cynulliad Cenedlaethol fel samplau masnachu, i'w harddangos, neu ar gyfer astudiaethau neu ddadansoddiadau penodol.

(2) O ran awdurdodiad gan y Cynulliad Cenedlaethol—

- (a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;
  - (b) yn achos cynhyrchion y deuir â hwy i mewn—
    - (i) fel samplau masnachu neu i'w harddangos, rhaid ei wneud yn ddarostyngedig i amod bod rhaid peidio â'u marchnata; a
    - (ii) yn achos astudiaethau penodol neu ddadansoddiadau penodol, rhaid ei wneud yn ddarostyngedig i amod bod rhaid peidio â'u cyflenwi i bobl eu bwyta neu eu hyfed;
  - (c) caniateir ei wneud yn ddarostyngedig i unrhyw amodau eraill (os o gwbl) y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid; ac
  - (ch) caniateir ei ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu, mewn ysgrifen, ar unrhyw adeg.
- (3) Ni chaiff neb—
- (a) defnyddio cynnyrch y mae'r esemptiad ym mharagraff (1) yn gymwys iddo at unrhyw ddiben nad yw wedi'i awdurdodi ar ei gyfer, na thorri unrhyw amod y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (2)(b); na
  - (b) torri unrhyw amod arall yn awdurdodiad y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â chynnyrch o'r fath.
- (4) Yn achos cynhyrchion y deuir â hwy i Gymru i'w harddangos neu ar gyfer astudiaethau ac unrhyw nifer o gynhyrchion y deuir â hwy i mewn ar gyfer dadansoddiadau ac sy'n weddill ar ôl y dadansoddiadau hynny, rhaid i'r person a ddaeth â hwy i mewn wneud y canlynol cyn gynted â phosibl pan fydd yr arddangosfa, yr astudiaethau neu'r dadansoddiadau wedi gorffen, a'i wneud yn unol ag unrhyw amodau a bennir yn awdurdodiad y Cynulliad Cenedlaethol—
- (a) eu hanfon ymlaen i drydedd wlad; neu
  - (b) eu gwaredu'n unol â Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 a Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006(14).
- (5) Pan fo swyddog awdurdodedig yn credu bod darpariaeth ym mharagraff (3)(a) neu (4) wedi'i thorri mewn perthynas â chynnyrch, rhaid iddo, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r person y mae'n ymddangos ei fod â gofal dros y cynnyrch hwnnw, ei gymryd o dan ei ofal a gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol—
- (a) ei anfon ymlaen i gyrchfan y cytunwyd arni gyda'r person a ddaeth â'r cynnyrch i Gymru, sef cyrchfan sydd wedi'i lleoli mewn trydedd wlad, o fewn cyfnod o drigain o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad; neu
  - (b) ei waredu fel pe bai'n ddeunydd Categori 1 o dan Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 yn y cyfleusterau a ddarparwyd at y dibenion hynny ac sydd agosaf at y man lle y mae'r swyddog awdurdodedig yn ei gymryd o dan ei ofal.
- (6) Pan fo swyddog awdurdodedig yn credu bod paragraff (3)(b) wedi'i dorri mewn perthynas â chynnyrch, caiff gymryd y cynnyrch hwnnw o dan ei ofal drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r person y mae'n ymddangos ei fod â gofal dros y cynnyrch, a chymryd y naill neu'r llall o'r camau a bennwyd ym mharagraff (5)(a) a (b).
- (7) Nid yw Rhan 3, ac eithrio rheoliad 25, na Rhannau 4 i 9 yn gymwys i'r canlynol—
- (a) llaeth powdr babanod, bwyd babanod, neu fwydydd arbennig y mae eu hangen am resymau meddygol ac sy'n cynnwys cig, cynhyrchion cig, llaeth, neu gynhyrchion llaeth o drydedd wlad—
    - (i) os ydynt ym magiau personol teithiwr ac wedi'u bwriadu iddo ef ei hun eu bwyta, eu hyfed neu eu defnyddio;
    - (ii) os nad oes mwy ohonynt nag y byddai'n rhesymol i unigolyn eu bwyta neu eu hyfed;

- (iii) os nad oes angen eu cadw mewn oergell cyn eu hagog;
  - (iv) os ydynt yn gynhyrchion brand patent sydd wedi'u pecynnu i'w gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf; a
  - (v) os yw'r deunydd y maent wedi'u pacio ynddo yn gyfan, oni bai eu bod yn cael eu defnyddio ar y pryd;
- (b) cig, cynhyrchion cig, llaeth neu gynhyrchion llaeth o Ynysoedd Ffarøe, Kalaallit Nunaat (*Greenland*), Gweriniaeth Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, neu'r Swistir—
- (i) os ydynt ym magiau personol teithiwr, neu os cânt eu hanfon drwy'r post neu eu cludo gan gludydd (ac eithrio fel rhan o'r broses fasnachu neu fel sampl fasnachu) a'u bod wedi'u cyfeirio at unigolyn preifat yng Nghymru;
  - (ii) os ydynt wedi'u bwriadu i'r teithiwr ei hun neu, yn ôl y digwydd, y sawl y cyfeirir hwy ato, eu bwyta neu eu hyfed; a
  - (iii) os nad yw cyfanswm eu pwysau ym magiau personol unrhyw deithiwr neu mewn unrhyw lwyth a anfonir drwy'r post neu a gludir gan gludydd at unigolyn preifat yn fwy na 5 cilogram; neu
- (c) os yw'r cynhyrchion ym magiau personol teithiwr a'u bod wedi'u bwriadu iddo ef eu bwyta neu eu hyfed, neu os ydynt yn cael eu hanfon drwy'r post neu eu cludo gan gludydd (ac eithrio fel rhan o broses fasnachu neu fel sampl fasnachu) a'u bod wedi'u cyfeirio at unigolyn preifat yng Nghymru, a'u bod wedi'u bwriadu iddo ef eu bwyta neu eu hyfed, ac—
- (i) os nad cig, cynhyrchion cig, llaeth neu gynhyrchion llaeth ydynt;
  - (ii) os nad ydynt yn pwyso mwy nag un cilogram;
  - (iii) os ydynt yn dod o drydedd wlad neu o ran o drydedd wlad y caniateir eu mewnforio ohoni yn unol â rhestr a lunnir drwy offeryn yn Atodlen 1; a
  - (iv) os nad ydynt yn dod o drydedd wlad neu o ran o drydedd wlad y gwaherddir eu mewnforio oddi yno gan unrhyw offeryn yn Atodlen 1.
- (8) Yn y rheoliad hwn ystyr “cig” (“*meat*”), “cynhyrchion cig” (“*meat products*”), “llaeth” (“*milk*”) a “cynhyrchion llaeth” (“*milk products*”) yw cynhyrchion o'r mathau hynny a restrir yn adrannau 01 — 04 o dan y pennawd I.2, Teitl I yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2002/349/EC.

## RHAN 2

### Gorfodi

#### Awdurdodau gorfodi a chyfnewid gwybodaeth

- 5.—(1) Rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu gorfodi—
- (a) gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y safle arolygu ar y ffin sydd wedi'i ddynodi a'i gymeradwyo'n unswydd ar gyfer gwiriadau milfeddygol ar gynhyrchion y cyfeirir atynt yn Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002;
  - (b) gan yr Asiantaeth —
    - (i) mewn unrhyw safle torri, sefydliad trin anifeiliaid hela neu ladd-dy; a

- (ii) mewn mangreoedd lle mae'r Asiantaeth yn gorfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(15) yn rhinwedd rheoliad 5(2)(b) o'r Rheoliadau hynny;
- (c) yn ddarostyngedig i baragraff (2), gan bob awdurdod lleol o fewn ei ardal, gan gynnwys wrth unrhyw safle arolygu ar y ffin yn yr ardal honno, ac eithrio wrth safle arolygu ar y ffin y cyfeirir ati yn is-baragraff (a) ac mewn mangreoedd y cyfeirir atynt yn is-baragraff (b).
- (2) Mewn manau mynediad, rhaid i reoliad 16 gael ei orfodi gan y Comisiynwyr ac nid gan yr awdurdod lleol.
- (3) Mewn achosion lle y mae swyddog awdurdod lleol, wrth arfer unrhyw swyddogaeth statudol, yn darganfod, wrth bwynt mynediad, lwyth neu gynnyrch y mae'r swyddog yn credu y gallai fod yn un y daethpwyd ag ef i mewn yn groes i reoliad 16, rhaid iddo hysbysu un o swyddogion Cyllid a Thollau a dal ei afael ar y llwyth neu'r cynnyrch hyd nes y bydd y swyddog hwnnw yn ei gymryd o dan ei ofal.
- (4) Mewn achosion lle y mae swyddog i awdurdod lleol nad yw'n swyddog awdurdodedig at ddibenion y Rheoliadau hyn, wrth iddo arfer unrhyw swyddogaeth statudol, yn darganfod yn unrhyw le ac eithrio pwynt mynediad neu safle arolygu ar y ffin, lwyth neu gynnyrch —
- (a) y mae'n credu na chydymffurfiwyd â'r Rheoliadau hyn mewn perthynas ag ef; neu
- (b) y mae'n credu ei fod yn dod o drydedd wlad ac y gallai beri risg i iechyd anifeiliaid neu i iechyd y cyhoedd,
- rhaid iddo hysbysu swyddog awdurdodedig a dal ei afael ar y llwyth neu'r cynnyrch hyd nes y bydd swyddog awdurdodedig yn ei gymryd o dan ei ofal.
- (5) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu bod awdurdod lleol yn methu neu wedi methu â gorfodi y Rheoliadau hyn yn gyffredinol, neu mewn unrhyw ddsbarth ar achosion, neu mewn achos unigol, caiff rhoi pŵer i swyddog awdurdodedig neu'r Asiantaeth eu gorfodi yn lle'r awdurdod lleol hwnnw.
- (6) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth adennill o'r awdurdod lleol o dan sylw unrhyw dreuliau yr oedd yn rhesymol iddo neu iddi eu tynnu o dan baragraff (5).
- (7) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, y Comisiynwyr, unrhyw awdurdod lleol a'r Asiantaeth gyfnewid gwybodaeth at ddibenion y Rheoliadau hyn, a chânt ddatgelu gwybodaeth i'r awdurdodau gorfodi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon at ddibenion y Rheoliadau hyn neu'r Rheoliadau cyfatebol yn yr awdurdodaethau hynny.
- (8) Nid yw paragraff (7) yn lleihau effaith unrhyw bŵer arall sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol, y Comisiynwyr, unrhyw awdurdod lleol a'r Asiantaeth i ddatgelu gwybodaeth.
- (9) Ni chaiff neb, gan gynnwys gwas i'r Goron, ddatgelu unrhyw wybodaeth a geir oddi wrth y Comisiynwyr o dan baragraff (7)—
- (a) os yw'r wybodaeth yn ymwneud â pherson y mae pwy ydyw—
- (i) wedi'i bennu yn y datgeliad; neu
- (ii) yn rhywbeth y gellir ei gasglu o'r datgeliad;
- (b) os yw'r datgeliad at ddiben heblaw'r dibenion a bennwyd ym mharagraff (7); ac
- (c) os nad yw'r Comisiynwyr wedi cydsynio ymlaen llaw â'r datgeliad.
- (10) Ym mharagraff (1), mae i'r termau “safle torri”, “sefydliad trin anifeiliaid hela” a “lladd-dy” yr ystyr a roddir yn y drefn honno i “*cutting plant*”, “game-handling establishment” a “*slaughterhouse*” yn rheoliad 5(6) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

(11) Yn y rheoliad hwn, ystyr “pwynt mynediad” (“*point of entry*”) yw unrhyw fan lle y mae nwyddau yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth y dollfa o dan Erthyglau 37 a 38 o'r Cod Tollau, ac eithrio safle arolygu ar y ffin.

### **Penodi milfeddygon swyddogol ac arolygwyr pysgod swyddogol**

6.—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi—

- (a) unrhyw filfeddygon sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi arbennig y cyfeirir ati yn Erthygl 27 o Gyfarwyddeb 97/78/EC i gyflawni'r swyddogaethau rheoliadol wrth unrhyw safle arolygu ar y ffin a ddynodwyd ac a gymeradwywyd yn unswydd ar gyfer gwiriadau milfeddygol ar gynhyrchion y cyfeirir atynt yn Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002; a
- (b) unrhyw gynorthwywyr a hyfforddwyd yn briodol ar gyfer pob milfeddyg a benodir o dan is-baragraff (a),

sy'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau rheoliadol yn briodol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol benodi—

- (a) unrhyw filfeddygon sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi arbennig y cyfeirir ati yn Erthygl 27 o Gyfarwyddeb 97/78/EC i gyflawni'r swyddogaethau rheoliadol wrth bob safle arolygu ar y ffin yn ei ardal, ac eithrio safle arolygu ar y ffin y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1)(a);
- (b) unrhyw swyddogion iechyd amgylcheddol i fod yn arolygwyr pysgod swyddogol i gyflawni'r swyddogaethau rheoliadol mewn perthynas â chynhyrchion pysgodfeydd wrth bob safle arolygu ar y ffin yn ei ardal, ac eithrio safle arolygu ar y ffin y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1)(a); ac
- (c) unrhyw gynorthwywyr a hyfforddwyd yn briodol ar gyfer pob milfeddyg swyddogol a benodwyd o dan baragraff (2)(a), ac ar gyfer pob arolygydd pysgod swyddogol a benodwyd o dan baragraff (2)(b),

sy'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau rheoliadol yn briodol.

### **Arfer pwerau gorfodi**

7.—(1) Caiff milfeddyg swyddogol, arolygydd pysgod swyddogol neu swyddog awdurdodedig, ar bob adeg resymol, ac ar ôl dangos, os gofynnir iddo wneud hynny, unrhyw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos ei awdurdod, arfer y pwerau a roddir gan reoliadau 8 a 9 er mwyn—

- (a) gorfodi'r Rheoliadau hyn;
- (b) gorfodi unrhyw ddatganiad a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth o dan reoliad 61;
- (c) canfod a gydymffurfir neu a gydymffurfiwyd â'r Rheoliadau hyn; neu
- (ch) gwirio beth yw unrhyw gynnyrch, beth yw ei darddiad neu ei gyrchfan.

(2) Yn achos milfeddyg swyddogol, arolygydd pysgod swyddogol neu swyddog awdurdodedig a benodwyd neu a awdurdodwyd gan awdurdod lleol, rhaid i'r pwerau a roddir gan reoliadau 8 a 9 gael eu harfer—

- (a) o fewn ardal yr awdurdod lleol hwnnw, a
- (b) y tu allan i ardal yr awdurdod lleol hwnnw er mwyn canfod a gydymffurfir neu a gydymffurfiwyd â'r Rheoliadau hyn o fewn yr ardal honno.

## Pwerau mynediad a phwerau arolygu

8.—(1) Caiff milfeddyg swyddogol, arolygydd pysgod swyddogol neu swyddog awdurdodedig—

- (a) mynd ar unrhyw safle arolygu ar y ffin, neu unrhyw dir neu fangre arall, a'i arolygu neu ei harolygu ac arolygu unrhyw beth sydd yn y man hwnnw neu arno, ond rhaid peidio â mynnu cael mynediad i unrhyw fangre a ddefnyddir fel tŷ annedd yn unig fel mater o hawl onid oes 24 awr o hysbysiad ysgrifenedig o'r bwriad i fynd i mewn iddo wedi'i roi i'r meddiannydd;
- (b) agor unrhyw fwndel, pecyn, blwch pacio, neu eitem o fagiau personol, neu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson, sy'n meddu ar unrhyw un ohonynt neu sy'n mynd gydag ef, ei agor;
- (c) arolygu cynnwys unrhyw fwndel, pecyn, blwch pacio, neu eitem o fagiau personol a agorwyd o dan is-baragraff (b);
- (ch) arolygu unrhyw gynnyrch, gan gynnwys ei ddeunydd pacio, ei seliau, ei farciau, ei labeli a'i gyflwyniad, ac unrhyw beiriant neu gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw gynnyrch neu mewn cysylltiad ag ef;
- (d) cymryd samplau o unrhyw gynnyrch ar gyfer profion labordy, er mwyn eu gwirio yn erbyn unrhyw ddogfen berthnasol sy'n ymwneud â'r cynnyrch neu mewn modd arall i wirio a yw'r cynnyrch hwnnw'n cydymffurfio â'r amodau mewnforio.

(2) Pan fo milfeddyg swyddogol, arolygydd pysgod swyddogol neu swyddog awdurdodedig—

- (a) wedi cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau a restrir ym mharagraff (1); a
- (b) wedi'i fodloni bod angen gwneud gwiriadau pellach,

caiff gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r person y mae'n ymddangos ei fod â gofal dros y llwyth, yn ei gwneud yn ofynnol i'r llwyth neu'r rhanlwyth gael ei storio o dan oruchwyliaeth y milfeddyg swyddogol, yr arolygydd pysgod swyddogol neu'r swyddog awdurdodedig, yn ôl y digwydd, yn unrhyw le ac o dan unrhyw amodau y bydd yn rhoi cyfarwyddyd amdanynt yn yr hysbysiad, hyd nes y bydd yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig pellach yn caniatáu i'r llwyth neu'r rhanlwyth gael ei symud oddi yno.

(3) Rhaid i gostau'r storio y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (2) gael eu talu gan y person sy'n gyfrifol am y llwyth.

(4) Caiff milfeddyg swyddogol, arolygydd pysgod swyddogol neu swyddog awdurdodedig sy'n mynd ar unrhyw dir neu i mewn unrhyw fangre o dan baragraff 1(a) gymryd gydag ef bersonau eraill sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddiadau ac, onid yw'n mynd i mewn i fangre a ddefnyddir fel tŷ annedd yn unig—

- (a) cynrychiolydd i'r Comisiwn Ewropeaidd; a
- (b) cynrychiolydd awdurdodau trydedd wlad, a benodir ac a weithredir yn unol â darpariaethau un o'r penderfyniadau cyfwerthedd a restrir yn Atodlen 2.

## Pwerau ynglŷn â dogfennau

9.—(1) Caiff milfeddyg swyddogol, arolygydd pysgod swyddogol neu swyddog awdurdodedig—

- (a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson y mae'n ymddangos ei fod â gofal dros gynnyrch, unrhyw berson sy'n gyfrifol am gynnyrch ac unrhyw swyddog corfforaethol, cyflogai, gwas neu asiant unrhyw bersonau o'r fath, ddangos unrhyw ddogfen berthnasol sydd yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth ac sy'n ymwneud â'r cynnyrch, a rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth ac sy'n ymwneud â'r cynnyrch, ac y

mae'n rhesymol i'r milfeddyg swyddogol, yr arolygydd pysgod swyddogol neu'r swyddog awdurdodedig ofyn amdani;

- (b) archwilio unrhyw ddogfen berthnasol sy'n ymwneud â chynnyrch ac, os yw'n cael ei chadw drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff fynd at unrhyw gyfrifiadur ac aparatws neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r ddogfen berthnasol honno, a'u harolygu a gwirio ei weithrediad;
- (c) gwneud unrhyw gopïau y gwêl yn dda o unrhyw ddogfen berthnasol sy'n ymwneud â chynnyrch a dal ei afael ar y copïau hynny; ac
- (ch) cymryd i'w feddiant, a dal ei afael ar, unrhyw ddogfen berthnasol ynglŷn â chynnyrch y mae gan y milfeddyg swyddogol, yr arolygydd pysgod swyddogol neu'r swyddog awdurdodedig le i gredu y gallai fod angen amdani fel tystiolaeth mewn achos cyfreithiol o dan y Rheoliadau hyn, a phan fo unrhyw ddogfen berthnasol o'r fath yn cael ei chadw drwy gyfrwng cyfrifiadur, ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei chynhyrchu ar ffurf a fyddai'n caniatáu iddo fynd â hi oddi yno.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr “swyddog corfforaethol” (“*corporate officer*”) mewn perthynas â chorff corfforaethol yw cyfarwyddwr, aelod pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath.

#### **Amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddiidwyll**

**10.**—(1) Ni fydd unrhyw swyddog awdurdodedig, milfeddyg swyddogol, arolygydd pysgod swyddogol, neu gynorthwydd a benodwyd o dan reoliad 6 yn atebol yn bersonol mewn perthynas ag unrhyw weithred a wnaed ganddo wrth gyflawni'r swyddogaethau rheoliadol sydd o fewn cwmpas ei gyflogaeth, neu wrth honni ei fod yn eu cyflawni, os gwnaeth y weithred honno gan gredu'n onest ac yn rhesymol fod ei ddyletswydd o dan y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny neu'n rhoi hawl iddo ei wneud.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn rhyddhau'r Cynulliad Cenedlaethol, awdurdod lleol na'r Asiantaeth rhag unrhyw atebolrwydd ynglŷn â gweithredoedd ei swyddogion.

#### **Gwarantau mynediad**

**11.**—(1) Os yw ynad heddwch wedi'i fodloni, ar ôl cael gwybodaeth ysgrifenedig ar lw, fod sail resymol i filfeddyg swyddogol, arolygydd pysgod swyddogol neu swyddog awdurdodedig fynd ar unrhyw dir neu i mewn i unrhyw fangre o dan reoliad 8 at unrhyw un o'r dibenion a bennir yn rheoliad 7 a naill ai—

- (a) bod mynediad wedi'i wrthod, neu ei bod yn rhesymol disgwyl iddo gael ei wrthod, a bod y milfeddyg swyddogol, yr arolygydd pysgod swyddogol neu'r swyddog awdurdodedig wedi hysbysu'r meddiannydd o'i fwriad i wneud cais am warant mynediad; neu
- (b) y byddai cais am fynediad, neu roi hysbysiad o'r fath, yn mynd yn groes i ddiben y mynediad, neu fod angen mynediad ar frys, neu fod y tir heb ei feddiannu neu'r fangre heb ei meddiannu, neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro, ac y byddai'n mynd yn groes i ddiben y mynediad i aros nes iddo ddychweilyd,

caiff yr ynad drwy warant a lofnodir ganddo, a honno'n warant sy'n ddilys am fis, awdurdodi'r milfeddyg swyddogol, yr arolygydd pysgod swyddogol neu'r swyddog awdurdodedig i fynd ar y tir neu i mewn i'r fangre, gan ddefnyddio grym rhesymol os bydd angen.

(2) Rhaid i filfeddyg swyddogol, arolygydd pysgod swyddogol neu swyddog awdurdodedig sy'n ymadael ag unrhyw fangre sydd heb ei meddiannu ac y mae'r swyddog wedi mynd i mewn iddi yn rhinwedd gwarant, ei gadael yn fangre sydd wedi'i diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad diawdurdod ag yr oedd pan aeth yno yn gyntaf.

**Atebion awdurdodau lleol**

12.—(1) Ar gyfer pob safle arolygu ar y ffin yn ei ardal, rhaid i awdurdod lleol gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ateb sy'n cynnwys—

- (a) cyfanswm y llwythi a wiriwyd, a'r rheini wedi'u dosbarthu yn ôl grwpiau cynhyrchion ac yn ôl y wlad y maent yn tarddu ohoni;
- (b) rhestr o'r llwythi y cymerwyd samplau ohonynt a chanlyniadau unrhyw brawf ar bob sampl neu ddadansoddiad o bob sampl; ac
- (c) rhestr o'r llwythi y mae'n ofynnol eu hanfon ymlaen neu eu gwaredu o dan reoliad 21 gan y milfeddyg swyddogol neu'r arolygydd pysgod swyddogol, a hynny, ym mhob achos, ynghyd â'r wlad y maent yn tarddu ohoni, sefydliad tarddiad (os yw'n hysbys), disgrifiad o'r cynnyrch o dan sylw a'r rheswm dros ei wrthod.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu pa mor aml y mae'r atebion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1) i gael eu cyflwyno a pha gyfnod amser y maent i ymdrin ag ef.

**Atal safleoedd arolygu ar y ffin a chanolfannau arolygu rhag gweithredu**

13.—(1) Bydd y rheoliad hwn yn gymwys os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni—

- (a) y byddai parhau i weithredu safle arolygu ar y ffin yn peri risg difrifol i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid; neu
- (b) bod toriad difrifol wedi bod, wrth safle arolygu ar y ffin, o'r gofynion ar gyfer cymeradwyo safleoedd arolygu ar y ffin sydd wedi'u gosod yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 97/78/EC neu ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2001/812/EC (sy'n gosod gofynion ar gyfer cymeradwyo safleoedd arolygu ar y ffin sy'n gyfrifol am wiriadau milfeddygol ar gynhyrchion y deir â hwy i'r Gymuned o drydydd gwledydd)(16).

(2) At ddibenion y rheoliad hwn ac unrhyw hysbysiad a gyflwynir odano, ystyr "cymeradwyaeth" ("*approval*"), mewn perthynas â safle arolygu ar y ffin neu ganolfan arolygu, yw'r gymeradwyaeth o'r safle arolygu ar y ffin neu'r ganolfan arolygu, yn ôl y digwydd, yn unol ag Erthygl 6(2) neu 6(4) o Gyfarwyddeb 97/78/EC.

(3) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol atal cymeradwyaeth y safle arolygu ar y ffin naill ai'n llawn neu'n rhannol yn unol â pharagraff (4), (5) neu (6).

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol atal cymeradwyaeth y safle arolygu ar y ffin yn llawn drwy gyflwyno—

- (a) i weithredydd y safle arolygu ar y ffin; neu
- (b) pan fo'r safle arolygu ar y ffin yn cynnwys mwy nag un ganolfan arolygu, i weithredydd pob canolfan arolygu (os ydynt yn wahanol),

hysbysiad ysgrifenedig sy'n datgan bod y gymeradwyaeth o'r fangre fel safle arolygu ar y ffin wedi'i hatal.

(5) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni mai dim ond mewn cysylltiad ag un neu ragor (ond nid pob un) o'r categorïau o gynhyrchion y mae'r safle arolygu ar y ffin wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer (fel a bennir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2001/881/EC) y mae'r risg difrifol i iechyd y cyhoedd neu i iechyd anifeiliaid y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1)(a), neu'r toriad difrifol o'r gofynion y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 1(b), wedi codi, caiff atal y gymeradwyaeth o'r safle arolygu ar y ffin mewn perthynas â'r categori hwnnw neu'r categorïau hynny o gynhyrchion drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig—

- (a) i weithredydd y safle arolygu ar y ffin; neu

(16) OJ Rhif L306, 23.11.2001, t. 28.

- (b) pan fo'r categori o gynhyrchion neu'r categorïau o gynhyrchion o dan sylw yn cael eu trafod gan wahanol ganolfannau arolygu yn y safle arolygu ar y ffin, i weithredydd pob un o'r canolfannau arolygu hynny (os ydynt yn wahanol),

yn datgan bod y gymeradwyaeth o'r fangre fel safle arolygu ar y ffin wedi'i hatal ar gyfer y categori hwnnw, neu'r categorïau hynny, o gynhyrchion.

(6) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni mai dim ond mewn cysylltiad ag un ganolfan arolygu yn y safle arolygu ar y ffin y mae'r risg difrifol i iechyd y cyhoedd neu i iechyd anifeiliaid y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1)(a), neu'r toriad difrifol o'r gofynion y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1)(b), wedi codi, caiff atal y gymeradwyaeth o'r ganolfan arolygu drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i weithredydd y ganolfan arolygu yn datgan bod y gymeradwyaeth o'r fangre fel canolfan arolygu wedi'i hatal.

(7) Pan gyflwynir hysbysiad o dan—

- (a) paragraff (4), bydd y fangre yn peidio â bod yn safle arolygu ar y ffin neu'n ganolfan arolygu mewn safle arolygu ar y ffin (yn ôl y digwydd) hyd nes y cânt eu cymeradwyo felly eto yn unol ag Erthygl 6(2)(a) o Gyfarwyddeb 97/78/EC;
- (b) paragraff (5), bydd y fangre'n peidio â bod yn safle arolygu ar y ffin neu'n ganolfan arolygu mewn safle arolygu ar y ffin (yn ôl y digwydd), a gymeradwywyd ar gyfer y categori hwnnw, neu'r categorïau hynny, o gynhyrchion, hyd nes iddi gael ei chymeradwyo felly unwaith eto yn unol ag Erthygl 6(2)(a) o Gyfarwyddeb 97/78/EC; ac
- (c) paragraff (6), bydd y fangre yn peidio â bod yn fangre sydd wedi'i chymeradwyo fel canolfan arolygu mewn safle arolygu ar y ffin, hyd nes y caiff ei chymeradwyo felly eto yn unol ag Erthygl 6(2)(a) o Gyfarwyddeb 97/78/EC.

(8) Mae darpariaethau paragraff (7) yn gymwys yn achos ataliad y rhoddir effaith iddo o dan y rheoliad hwn er gwaethaf y ffaith y gall yr Atodiad i Benderfyniad 2001/881/EC fod heb ei ddiweddarau i adlewyrchu'r ataliad hwnnw.

(9) Yn y rheoliad hwn, ystyr “canolfan arolygu” (“*inspection centre*”) yw cyfleuster sy'n rhan o safle arolygu ar y ffin ac a restrir ynghyd ag enw'r safle arolygu ar y ffin ei hun yn yr Atodiad i Benderfyniad 2001/881/EC.

### **Swyddogaethau rheoliadol arolygwyr pysgod swyddogol**

14. Yn Rhannau 3 i 8, a Rhan 12, pan fo cynnyrch pysgodfeydd o dan sylw, rhaid dehongli'r ymadrodd “milfeddyg swyddogol” fel un sy'n golygu arolygydd pysgod swyddogol.

## **RHAN 3**

### **Darpariaethau sy'n Gymwys i Gynhyrchion yn Gyffredinol**

#### **Gwahardd cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio**

15. Ni chaiiff neb ddod â chynnyrch nad yw'n cydymffurfio i mewn i Gymru o drydedd wlad, na chynnyrch nad yw'n cydymffurfio ac sy'n tarddu o drydedd wlad i Gymru o fan arall yn y tiriogaethau perthnasol—

- (a) onid yw'n gynnyrch tramwy;
- (b) onid yw ei sefydliad cyrchfan yn warws mewn parth rhydd, yn warws rydd neu'n warws dollfa a gymeradwywyd o dan Erthygl 12(4)(b) o Gyfarwyddeb 97/78/EC, neu'n storfa longau sy'n cydymffurfio ag Erthygl 13 o Gyfarwyddeb 97/78/EC, sydd wedi'i lleoli (ym mhob achos) y tu allan i'r Deyrnas Unedig; neu

- (c) onid yw ei sefydliad cyrchfan yn gyfrwng cludo mordwyol trawsffiniol ac y bwriedir i'r cynnyrch hwnnw gael ei ddanfôn yn uniongyrchol ar y cyfrwng cludo mordwyol hwnnw er mwyn iddo gael ei fwyta neu ei yfed yno gan y staff a'r teithwyr.

### **Gwahardd cyflwyno cynhyrchion ac eithrio wrth safleoedd arolygu ar y ffin**

**16.**—(1) Ni chaniateir dod ag unrhyw gynnyrch i Gymru o drydedd wlad ac eithrio wrth safle arolygu ar y ffin a ddynodwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer gwiriadau milfeddygol ar y cynnyrch hwnnw.

(2) Ni chaniateir dod ag unrhyw gynnyrch Erthygl 9 i Gymru, y mae'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer ei gyflwyno y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ac y mae'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer ei gyrchfan yng Nghymru, ac eithrio wrth safle arolygu ar y ffin a ddynodwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer gwiriadau milfeddygol ar y cynnyrch hwnnw.

(3) At ddibenion cymhwysio Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979<sup>(17)</sup> i gynhyrchion sy'n cael eu cyflwyno'n groes i'r rheoliad hwn, amser eu mewnfario fydd yr amser cyflwyno yn unol ag adran 5 o'r Ddeddf honno.

### **Hysbysu ymlaen llaw ynglŷn â chyflwyno cynhyrchion neu eu rhoi gerbron**

**17.**—(1) Ni chaiff neb—

- (a) dod â chynnyrch neu lwyth i Gymru o drydedd wlad; neu
- (b) dod â chynnyrch Erthygl 9 neu lwyth o gynhyrchion Erthygl 9 i mewn i Gymru y mae eu safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan yng Nghymru,

oni bai bod hysbysiad o'i gyflwyno wedi'i roi i'r milfeddyg swyddogol wrth safle arolygu ar y ffin a ddynodwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer gwiriadau milfeddygol ar y cynnyrch neu'r llwyth hwnnw a bod copi ohono wedi'i anfon i swyddfa'r Comisiynwyr sy'n gyfrifol am yr ardal y mae'r safle arolygu hwnnw ar y ffin wedi'i leoli ynddi.

(2) Pan fo'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno cynnyrch Erthygl 9 a'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan cynnyrch Erthygl 9 neu lwyth o gynhyrchion Erthygl 9 ill dau yng Nghymru, ni chaiff neb roi'r cynnyrch neu'r llwyth gerbron wrth safle arolygu ar y ffin oni bai bod hysbysiad o'i roi gerbron wedi'i roi i'r milfeddyg swyddogol wrth safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan a ddynodwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer gwiriadau milfeddygol ar y cynnyrch neu'r llwyth hwnnw a bod copi o'r hysbysiad hwnnw wedi'i anfon i swyddfa'r Comisiynwyr sy'n gyfrifol am yr ardal y mae'r safle arolygu hwnnw ar y ffin wedi'i leoli ynddi.

(3) O ran yr hysbysiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraffau (1) a (2)—

- (a) rhaid iddo fod ar y ffurf a nodir fel Rhan 1 o'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin;
- (b) caniateir iddo gael ei ddarparu ar ffurf electronig;
- (c) rhaid iddo fod yn Gymraeg neu yn Saesneg a hefyd yn un o ieithoedd swyddogol y gyrchwlad yn y tiriogaethau perthnasol y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad, os gwlad wahanol i'r Deyrnas Unedig yw'r gyrchwlad;
- (ch) rhaid iddo gyrraedd y safle arolygu ar y ffin cyn i'r cynnyrch neu'r llwyth gael ei ddadlwytho o'r cyfrwng cludo a ddaeth ag ef i Gymru; a
- (d) yn achos hysbysiad a roddwyd i safle arolygu ar y ffin ar gyfer y gyrchfan, rhaid iddo bennu pa wiriadau sydd wedi'u gwneud wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno.

<sup>(17)</sup> 1979 p. 2, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1992/3095.

### Rhoi cynhyrchion gerbron wrth safleoedd arolygu ar y ffin

18.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am gynnyrch y deuir ag ef i Gymru o drydedd wlad, neu am gynnyrch Erthygl 9 y mae'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer ei gyrchfan yng Nghymru ac y deuir ag ef i Gymru, roi'r cynnyrch a'r dogfennau gofynnol neu sicrhau bod y rheini'n cael eu rhoi, yn ddi-oed gerbron y milfeddyg swyddogol yng nghyfleuster arolygu'r safle arolygu ar y ffin y rhoddwyd hysbysiad o gyflwyno neu roi'r cynnyrch ger ei fron o dan reoliad 17.

(2) Pan fo safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno cynnyrch Erthygl 9 yn y Deyrnas Unedig a'i safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan yng Nghymru, rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am y cynnyrch ar ôl ei symud o'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno roi'r cynnyrch a'r dogfennau gofynnol, neu sicrhau bod y rheini'n cael eu rhoi, yn ddi-oed gerbron y milfeddyg swyddogol yng nghyfleuster arolygu'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan y rhoddwyd hysbysiad o roi'r cynnyrch ger ei fron o dan reoliad 17.

(3) Rhaid i berson sy'n rhoi cynnyrch gerbron, ac eithrio cynnyrch tramwy neu gynnyrch y mae Rhan 8 yn gymwys iddo, o dan baragraff 18(1) neu (2) roi gerbron y dogfennau gofynnol sy'n ymwneud â'r cynnyrch hwnnw a'r rheini'n ddogfennau sydd wedi'u llunio yn Gymraeg neu yn Saesneg.

(4) Rhaid i berson sydd, o dan baragraff 18(1) neu (2), yn rhoi gerbron gynnyrch tramwy neu gynnyrch y mae Rhan 8 yn gymwys iddo ynghyd â dogfen ofynnol mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, roi gerbron gyfieithiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg o'r ddogfen ofynnol yr un pryd, a rhaid i'r cyfieithiad hwnnw fod yn un y mae arbenigyydd â chymhwyster priodol wedi cadarnhau mai cyfieithiad cywir ydyw.

### Gwiriadau milfeddygol a rheolaethau swyddogol

19.—(1) Yn ddarostyngedig, yn achos cynhyrchion sydd wedi'u trawslwytho, i reoliad 38, rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo yn rhinwedd rheoliad 18 roi cynnyrch a'i ddogfennau gofynnol, neu i sicrhau bod y rheini'n cael eu rhoi, gerbron milfeddyg swyddogol ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol, neu gynorthwyydd a benodwyd o dan reoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c) gyflawni ar y cynnyrch neu ar y dogfennau gofynnol, yn ôl y digwydd—

- (a) gwiriad dogfennol;
- (b) gwiriad adnabod;
- (c) yn ddarostyngedig i reoliadau 41, 46 a 52 gwiriad ffisegol, ac
- (ch) y rheolaethau swyddogol y cyfeirir atynt yn Erthygl 14(1) o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a ddefnyddir i sicrhau bod cydymffurfedd â rheolau cyfraith bwyd anifeiliaid a chyfraith bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid yn cael ei wirio(18),

a rhaid iddo roi i'r milfeddyg swyddogol neu'r cynorthwyydd unrhyw gymorth y byddai'n rhesymol iddo ofyn amdano i'w alluogi i gyflawni unrhyw un o'r gwiriadau neu'r rheolaethau hynny.

(2) Pan fo cynnyrch yn cael ei roi gerbron milfeddyg swyddogol o dan reoliad 18, ni chaiff neb symud y cynnyrch na pheri iddo gael ei symud o'r safle arolygu ar y ffin lle cafodd ei roi gerbron hyd nes y bydd y milfeddyg swyddogol wedi awdurdodi ei symud drwy ddyroddi Rhan 2 o'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin ar gyfer y cynnyrch neu ar gyfer y llwyth neu'r rhanlwyth sy'n cynnwys y cynnyrch.

(3) Pan gaiff sampl o gynnyrch ei chymryd wrth gynnal gwiriad ffisegol, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y llwyth sy'n cynnwys y cynnyrch ei storio o dan oruchwyliaeth y milfeddyg swyddogol yn y man ac o dan yr amodau a gyfarwyddir gan y milfeddyg swyddogol a thalu costau ei storio felly, tra'n aros i'r cynnyrch gael ei symud o dan baragraff (2).

(18) OJ Rhif L 165, 30.4.2004, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Gorigendwm OJ Rhif L 191, 28.5.2004, t. 1.

(4) Pan fo cynnyrch wedi'i roi o dan gadwad swyddogol o dan Erthygl 18 neu 19 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004, ni chaiff neb ei symud o'r man lle mae o dan gadwad.

(5) Pan fo cynnyrch wedi'i roi o dan gadwad swyddogol o dan Erthygl 19 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 a bod y milfeddyg swyddogol—

- (a) wedi cyflwyno hysbysiad i'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch o dan Erthygl 19(1) o'r Rheoliad hwnnw; neu
- (b) yn credu bod y cynnyrch hwnnw yn niweidiol i iechyd dynol neu iechyd anifeiliaid o dan Erthygl 19(2) o'r Rheoliad hwnnw,

rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch gydymffurfio â'r hysbysiad os bydd is-baragraff (a) yn gymwys, neu gydweithredu â'r milfeddyg swyddogol i ddinistrio neu anfon ymlaen y cynnyrch os bydd is-baragraff (b) yn gymwys.

(6) Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad ar lwyth a wnaed o dan Erthygl 19 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 apelio i lys ynadon o fewn un mis i ddyddiad y penderfyniad trwy gyfrwng cwyn am orchymyn a bydd Deddf Llysoedd Ynadon 1980(19) fydd yn gymwys i'r trafodion.

(7) Tra'n aros i apel gael ei phenderfynu o dan baragraff (6), rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch o dan sylw sicrhau y caiff ei storio o dan oruchwyliaeth y milfeddyg swyddogol yn y man ac o dan yr amodau y bydd yn rhoi cyfarwyddyd amdanynt drwy hysbysiad.

### **Y ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin i fynd gyda'r llwyth**

**20.**—(1) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am lwyth neu ranlwyth y mae Rhan 2 o'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin wedi'i dyroddi mewn perthynas ag ef, ac unrhyw gludydd sydd â gofal drosto am y tro, sicrhau bod y ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin yn mynd gyda'r llwyth neu'r rhanlwyth—

- (a) yn achos llwyth neu ranlwyth sydd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fewnforio, ac yn ddarostyngedig i reoliad 37(3), hyd nes y bydd y llwyth neu'r rhanlwyth yn cyrraedd am y tro cyntaf, ar ôl cael ei fewnforio, fangre lle mae cynhyrchion yn cael eu storio, eu prosesu, eu trafod, eu prynu neu eu gwerthu; a
- (b) ym mhob achos arall hyd nes na fydd y llwyth neu'r rhanlwyth yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan awdurdodau'r tollau, o fewn ystyr “supervision by the customs authorities” yn Erthygl 4(13) o'r Cod Tollau.

(2) Rhaid i'r person sy'n meddiannu at ddibenion ei fusnes y fangre y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 1(a) gymryd meddiant ar y dystysgrif fynediad filfeddygol gyffredin y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (1) a dal ei afael arni yn y fangre am gyfnod o flwyddyn gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl iddi gyrraedd yno.

### **Cynhyrchion sy'n methu gwiriadau milfeddygol**

**21.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 22.

(2) Pan fo'r milfeddyg swyddogol, yn dilyn gwiriad milfeddygol wrth safle arolygu ar y ffin, yn penderfynu—

- (a) bod cynnyrch, heblaw cynnyrch a eithriwyd, yn gynnyrch nad yw'n cydymffurfio; neu
- (b) bod rhyw afreoleidd-dra arall mewn perthynas â chynnyrch;

rhaid i'r milfeddyg swyddogol gydymffurfio â pharagraff (3).

(3) Rhaid i'r milfeddyg swyddogol gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch yn ei gwneud yn ofynnol iddo—

- (a) anfon ymlaen y cynnyrch drwy'r dull cludo a ddefnyddiwyd i ddod ag ef i Gymru o'r safle arolygu ar y ffin i gyrchfan y cytunir arni gyda'r milfeddyg swyddogol, a'r gyrchfan honno wedi'i lleoli mewn trydedd wlad, o fewn cyfnod o drigain niwrnod gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad; neu
- (b) gwaredu'r cynnyrch yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 yn y cyfleusterau a ddarperir at y diben hwnnw ac sydd agosaf at y safle arolygu ar y ffin.
- (4) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), pan fo swyddog awdurdodedig yn penderfynu, ar ôl gwiriad milfeddygol ar gynnyrch, heblaw cynnyrch a eithriwyd, sydd wedi'i leoli i ffwrdd o safle arolygu ar y ffin, fod y cynnyrch yn gynnyrch nad yw'n cydymffurfio, rhaid i'r swyddog awdurdodedig gydymffurfio â pharagraff (5).
- (5) Rhaid i'r swyddog awdurdodedig gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r person y mae'n ymddangos ei fod â gofal dros y cynnyrch, yn ei gwneud yn ofynnol iddo—
- (a) anfon ymlaen y cynnyrch drwy'r dull cludo a ddefnyddiwyd i'w gyflwyno i Gymru o'r safle arolygu ar y ffin y cyfeiriwyd ato yn yr hysbysiad i gyrchfan y cytunir arni gyda'r swyddog awdurdodedig, a'r gyrchfan honno wedi'i lleoli mewn trydedd wlad, o fewn cyfnod o drigain niwrnod gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad; neu
- (b) gwaredu'r cynnyrch yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 yn y cyfleusterau a ddarperir at y diben hwnnw ac sydd agosaf at leoliad y cynnyrch.
- (6) Rhaid gwaredu'r cynnyrch yn unol â pharagraff 3(b) neu 5(b) —
- (a) pan fyddai ei anfon ymlaen wedi'i ragwahardd ar sail iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd—
- (i) oherwydd canlyniadau gwiriad milfeddygol, neu
- (ii) oherwydd unrhyw ofyniad o ran iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd sydd wedi'i osod mewn offeryn Cymunedol ac sydd mewn grym ar y dyddiad y cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud,
- neu sydd fel arall yn amhosibl;
- (b) pan fo'r cyfnod o drigain niwrnod y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (3)(a) neu (5)(a) wedi mynd heibio; neu
- (c) pan fo'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch neu, os yw is-baragraff (4) yn gymwys, perchennog y cynnyrch, yn cytuno ar unwaith i'w waredu.
- (7) O ran cynnyrch y mae hysbysiad wedi'i gyflwyno ynglŷn ag ef o dan baragraff (3) neu (5), rhaid i'r person sy'n gyfrifol amdano, neu, os yw paragraff (4) yn gymwys, ei berchennog, sicrhau y caiff y cynnyrch ei storio hyd nes iddo gael ei anfon ymlaen neu ei waredu o dan oruchwyliaeth y milfeddyg swyddogol neu'r swyddog awdurdodedig yn y man neu o dan yr amodau a gyfarwyddir ganddo yn yr hysbysiad.
- (8) Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (2) neu (4) apelio i lys ynadon o fewn un mis i ddyddiad y penderfyniad trwy gyfrwng cwyn am orchymyn a bydd Deddf Llysoedd Ynadon 1980 yn gymwys i'r achos cyfreithiol.
- (9) Tra'n aros i apêl gael ei phenderfynu o dan baragraff (8), bydd paragraff (7) yn gymwys i storio'r cynnyrch o dan sylw.
- (10) Yn y rheoliad hwn—
- (a) ystyr “cynnyrch a eithriwyd” (“*excepted product*”) yw cynnyrch tramwy sy'n bodloni gofynion Rhan 7 neu gynnyrch y cyfeirir at ei sefydliad cyrchfan yn rheoliad 15(b) neu 15(c);
- (b) ystyr “afreoleidd-dra arall” (“*other irregularity*”), mewn perthynas â chynnyrch, yw—

- (i) ei gyflwyno i Gymru o drydedd wlad, neu ei roi gerbron safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan yng Nghymru, heb fod hysbysiad wedi'i roi o dan reoliad 17;
- (ii) unrhyw wybodaeth ffug neu gamarweiniol a gynhwysir mewn hysbysiad a roddir o dan reoliad 17;
- (iii) unrhyw wybodaeth ffug neu gamarweiniol a roddir o dan reoliad 45 neu 51;
- (iv) unrhyw gamgymeriad, hepgoriad neu wybodaeth ffug neu gamarweiniol mewn dogfen ofynnol, ac unrhyw anghysondeb rhwng dogfen ofynnol ac—
  - (aa) yr hysbysiad a roddwyd o dan reoliad 17 o gyflwyno neu roi'r cynnyrch gerbron;
  - (bb) y cynnyrch ei hun; neu
  - (cc) y seliau, y stampiau, y marciau neu'r labeli ar y cynnyrch, ar y llwyth sy'n cynnwys y cynnyrch neu ar y cynhwysydd sy'n dal y cynnyrch neu'r llwyth;
- (v) unrhyw ddiffyg yn y cynnyrch sy'n ei wneud yn anffit i'w ddefnyddio at y diben y mae, yn ôl y dogfennau gofynnol, wedi'i fwriadu ar ei gyfer;
- (vi) unrhyw ddiffyg yn y seliau, y stampiau, y marciau neu'r labeli y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (10)(b)(iv)(cc), gan gynnwys, yn achos cynnyrch sydd wedi'i becynnu, unrhyw doriad o'r gofynion labelu sydd wedi'u gosod ar gyfer y cynnyrch hwnnw mewn unrhyw Gyfarwyddeb, Penderfyniad neu Reoliad a restrir yn Atodlen 1;
- (vii) yn achos cynnyrch sydd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fewnforio, unrhyw awgrym yn y dogfennau gofynnol nad yw'r cynnyrch yn cydymffurfio â'r amodau mewnforio; ac
- (viii) yn achos cynnyrch nad yw'n cydymffurfio ac sy'n gynnwys tramwy, neu'n gynnwys y cyfeiriwyd at ei sefydliad cyrchfan yn rheoliad 15(b) neu 15(c), unrhyw doriad o'r gofynion a osodir ar gyfer y cynnyrch hwnnw nad yw'n cydymffurfio mewn unrhyw Gyfarwyddeb, Penderfyniad neu Reoliad a restrir yn Atodlen 1.

### Trin cynhyrchion fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid

**22.**—(1) Os yw'r milfeddyg swyddogol neu'r swyddog awdurdodedig o'r farn nad yw cynnyrch y mae rheoliad 21 yn gymwys iddo yn peri unrhyw risg i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd, caiff awdurdodi bod y cynnyrch yn cael ei ddefnyddio yn unol â rheoliad 26 o Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006<sup>(20)</sup> er gwaethaf paragraffau (2), (3) a (4) o reoliad 21.

(2) Rhaid i'r awdurdodiad fod yn ysgrifenedig, caniateir ei wneud yn ddarostyngedig i amodau a chaniateir ei ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig ar unrhyw bryd.

(3) Caiff yr awdurdodiad bennu p'un o'r defnyddiau yn rheoliad 26 o Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 a ganiateir.

### Cynhyrchion sy'n cynnwys sylweddau anawdurdodedig a gweddillion gormodol

**23.**—(1) Yn y rheoliad hwn—

- (a) ystyr “terfyn gweddillion uchaf” (“*maximum residue limit*”) yw terfyn gweddillion uchaf a restrir yn Atodiad I neu Atodiad III i Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2377/90 (sy'n gosod gweithdrefn Gymunedol ar gyfer sefydlu terfynau gweddillion uchaf cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol mewn bwydydd sy'n dod o anifeiliaid)<sup>(21)</sup>;
- (b) mae i “sylwedd anawdurdodedig” yr ystyr sydd i “*unauthorised substance or product*” yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 96/23/EC (ar fesurau i fonitro sylweddau penodol a'u

<sup>(20)</sup> O.S. 2006/1293 (Cy. 127).

<sup>(21)</sup> OJ Rhif L224, 18.8.90, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1451/2006 (OJ Rhif L271, 30.9.2006, t.37).

gweddillion mewn anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid a diddymu Cyfarwyddbau 85/358/EEC a 86/469/EEC a Phenderfyniadau 89/187/EEC a 91/664/EEC(22); ac

- (c) ystyr “sefydliad tarddiad mewn trydedd wlad” (“*establishment of origin in a third country*”) yw'r sefydliad tarddiad yn y drydedd wlad y mae'r llwyth yn tarddu ohoni, fel a nodir ym mlwch 10 o'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo gwiriad milfeddygol ar lwyth o sefydliad tarddiad penodol mewn trydedd wlad yn datgelu bod sylwedd anawdurdodedig yn bresennol, neu'n datgelu yr aethpwyd dros y terfyn gweddillion uchaf, ond nad oes unrhyw fesurau Cymunedol wedi'u mabwysiadu eto mewn ymateb i hyn.

(3) O dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (2), mae paragraffau (4), (5), (6) a (7) yn gymwys i'r rhai o blith y deg llwyth nesaf y deuir â hwy i'r Deyrnas Unedig o'r sefydliad hwnnw ac y deuir â hwy i Gymru.

(4) Rhaid i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin lle y deuir ag unrhyw lwyth o'r fath i mewn, ei gymryd dan ei ofal, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r person sy'n gyfrifol am y llwyth, ac edrych i weld a oes sylweddau anawdurdodedig neu eu gweddillion yn y llwyth drwy gymryd sampl gynrychioliadol o'r cynhyrchion sy'n ffurfio'r llwyth hwnnw a'i dadansoddi.

(5) Pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno o dan baragraff (4), rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y llwyth roi yng ngofal y milfeddyg swyddogol flaendal neu warant sy'n ddigonol i sicrhau bod yr holl ffioedd sy'n daladwy yn unol â Rhan 9 am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd ar y llwyth, gan gynnwys cymryd samplau, ac am unrhyw brawf neu ddadansoddiad labordy a wnaed ar unrhyw sampl a gymerwyd, yn cael eu talu.

(6) Os bydd unrhyw wiriad milfeddygol a gyflawnwyd ar y llwyth yn datgelu bod sylweddau anawdurdodedig neu eu gweddillion yn bresennol neu'n datgelu yr aethpwyd dros ben y terfyn gweddillion uchaf, rhaid i'r milfeddyg swyddogol —

- (a) anfon ymlaen y llwyth, neu unrhyw ran ohono y mae'r milfeddyg swyddogol yn credu bod presenoldeb sylweddau anawdurdodedig neu eu gweddillion neu weddillion gormodol yn effeithio arni, ynghyd â'r dogfennau gofynnol, i'r drydedd wlad y mae'n tarddu ohoni; a
- (b) arnodi'r dogfennau gofynnol sy'n ymwneud â'r llwyth, gan roi awgrym clir arnynt o'r rhesymau dros ei anfon ymlaen.

(7) Rhaid i gostau anfon y llwyth neu'r rhanlwyth ymlaen i'r drydedd wlad y mae'n tarddu ohoni a'i gludo yno gael eu talu gan yr anfonydd y mae ei enw yn ymddangos ar yr hysbysiad o gyflwyno'r llwyth a hwnnw'n hysbysiad a roddwyd yn unol â rheoliad 17.

### Llwythi a chynhyrchion y deuir â hwy i mewn yn anghyfreithlon

24.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol—

- (a) pan ddeuir â llwyth neu gynnyrch i Gymru o drydedd wlad ond nad yw'n cael ei roi gerbron wrth safle arolygu ar y ffin yn unol â rheoliad 18;
- (b) pan fo llwyth neu gynnyrch sy'n tarddu o drydedd wlad yn un y daethpwyd ag ef i Gymru o rywle arall yn y tiriogaethau perthnasol, ond nad yw wedi'i roi gerbron wrth safle arolygu ar y ffin yno;
- (c) pan fo'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan i lwyth o gynhyrchion Erthygl 9 yng Nghymru ond nad yw'r llwyth yn cael ei roi gerbron yno yn unol â rheoliad 18; neu
- (ch) pan fo llwyth sy'n cael ei gyflwyno i Gymru yn cael ei roi gerbron milfeddyg swyddogol wrth safle arolygu ar y ffin nad yw wedi'i ddynodi na'i gymeradwyo ar gyfer gwiriadau milfeddygol ar y cynhyrchion sy'n ffurfio'r llwyth hwnnw.

(22) OJ Rhif L125, 23.5.96, t. 10, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor (gweler Corigendwm OJ Rhif L191, 28.5.2004, t. 1).

(2) O dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd ym mharagraffau (1)(a), (b) ac (c), rhaid i swyddog awdurdodedig, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r person y mae'n ymddangos ei fod â gofal dros y llwyth neu'r cynnyrch, gymryd y llwyth neu'r cynnyrch hwnnw o dan ei ofal ac naill ai ei anfon ymlaen yn unol â pharagraff (5) neu ei waredu yn unol â pharagraff (4).

(3) O dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd ym mharagraff (1)(ch), rhaid i'r milfeddyg swyddogol, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r person sy'n gyfrifol am y llwyth, gymryd y llwyth hwnnw o dan ei ofal ac naill ai ei anfon ymlaen yn unol â pharagraff (5) neu ei waredu yn unol â pharagraff (4).

(4) Pan fo'r swyddog neu'r milfeddyg swyddogol yn penderfynu gwaredu'r cynnyrch neu'r llwyth, rhaid iddo ei waredu fel petai'n ddeunydd Categori 1 o dan Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 yn y cyfleusterau a ddarparwyd at y diben hwnnw ac sydd agosaf at y man lle y mae'r swyddog awdurdodedig neu'r milfeddyg swyddogol yn ei gymryd dan ei ofal.

(5) Pan fo'r swyddog awdurdodedig neu'r milfeddyg swyddogol yn penderfynu anfon ymlaen y cynnyrch neu'r llwyth, rhaid iddo wneud hynny—

- (a) o fewn cyfnod o drigain o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl diwrnod cyflwyno'r hysbysiad;
- (b) i gyrchfan trydedd wlad y cytunwyd arni gyda'r canlynol—
  - (ix) perchennog y cynnyrch neu'r llwyth, o dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd ym mharagraffau (1)(a), (b) neu (c); neu
  - (x) y person sy'n gyfrifol am y llwyth, o dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd ym mharagraff (1)(ch); ac
- (c) drwy'r dull cludo a ddefnyddiwyd i ddod â'r cynnyrch neu'r llwyth i'r tiriogaethau perthnasol am y tro cyntaf.

### **Cynhyrchion sy'n beryglus i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd**

**25.** Os yw milfeddyg swyddogol neu swyddog awdurdodedig o'r farn bod llwyth neu gynnyrch o drydedd wlad yn peri risg i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd, rhaid iddo, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r person y mae'n ymddangos ei fod â gofal dros y llwyth neu'r cynnyrch, ei gymryd o dan ei ofal a'i waredu yn unol â rheoliad 24(4).

### **Tor cyfraith difrifol neu fynych**

**26.—**(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth yn dod i'r casgliad rhesymol, ar sail canlyniadau gwiriadau milfeddygol, fod cynhyrchion o drydedd wlad benodol, rhan benodol o drydedd wlad neu sefydliad penodol mewn trydedd wlad yn gysylltiedig â thor-cyfraith difrifol neu fynych o unrhyw ofyniad a osodwyd mewn offeryn Cymunedol sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd, bydd y rheoliad hwn yn gymwys i'r rhai o blith y deg llwyth nesaf y deuir â hwy i'r Deyrnas Unedig o'r drydedd wlad honno, o ran o drydedd wlad neu o sefydliad, yn ôl y digwydd, y deuir â hwy i Gymru.

(2) Rhaid i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin lle deuir ag unrhyw lwyth o'r fath i mewn, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r person sy'n gyfrifol am y llwyth, ei gymryd o dan ei ofal a chyflawni gwiriad ffisegol ohono, gan gynnwys cymryd samplau a gwneud profion a dadansoddiadau labordy.

(3) Pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno o dan baragraff (2), rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y llwyth roi yng ngofal y milfeddyg swyddogol flaendal neu warant sy'n ddigonol i sicrhau bod pob ffi sy'n daladwy yn unol â Rhan 9 am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd ar y llwyth, gan gynnwys cymryd samplau, ac am unrhyw brawf neu ddadansoddiad labordy a wnaed ar unrhyw sampl a gymerwyd, yn cael ei thalu.

(4) Os bydd unrhyw wiriad milfeddygol sy'n cael ei gyflawni ar y llwyth yn datgelu bod unrhyw ofyniad a osodwyd mewn offeryn Cymunedol ynglyn ag iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd wedi'i dorri, rhaid i'r milfeddyg swyddogol naill ai anfon y llwyth ymlaen neu ei waredu yn unol â rheoliad 21(3).

### **Annilysu dogfennau milfeddygol**

27. Pan fo milfeddyg swyddogol neu swyddog awdurdodedig yn cyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol bod cynnyrch yn cael ei anfon ymlaen o dan reoliad 21(3)(a), neu'n cymryd llwyth o dan ei ofal o dan reoliad 24(2), rhaid i unrhyw berson sy'n meddu ar y dogfennau gofynnol sy'n ymwneud â'r cynnyrch neu'r llwyth hwnnw neu sy'n eu rheoli eu cyflwyno ar unwaith i'r milfeddyg swyddogol neu'r swyddog awdurdodedig, yn ôl y digwydd, i'w hannilysu.

### **Costau o ran cynhyrchion sy'n cael eu hanfon ymlaen neu eu gwaredu**

28.—(1) Rhaid i'r personau a bennir ym mharagraff (2) dalu ar archiad gostau storio, cludo, anfon ymlaen a gwaredu unrhyw gynnyrch, llwyth neu ranlwyth sy'n cael ei anfon ymlaen neu ei waredu—

- (a) o dan reoliad 21, 24, 25 neu 26; neu
- (b) o dan Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(23) wrth orfodi rheoliad 16.

(2) Y personau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1) yw—

- (a) y person sy'n gyfrifol am y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth o dan sylw;
- (b) pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno i'r person y mae'n ymddangos ei fod â gofal dros y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth, perchennog y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth; neu
- (c) person y mae hysbysiad cymryd i feddiant yn unol â Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 wedi'i gyflwyno iddo.

(3) Rhaid i unrhyw gost y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (1) ac sy'n cael ei thalu gan filfeddyg swyddogol, swyddog awdurdodedig, y Cynulliad Cenedlaethol, awdurdod lleol, yr Asiantaeth neu'r Comisiynwyr gael ei had-dalu ar archiad gan y person sy'n gyfrifol am y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth neu gan berchennog y cynnyrch, y llwyth neu'r rhanlwyth hwnnw.

## **RHAN 4**

### **Gwaredu a Chladdu Cyflenwadau Arlwygo nas Defnyddiwyd a Deunyddiau Eraill sydd ar Gyfrwng Cludo**

#### **Gwaredu cyflenwadau arlwygo nas ddefnyddiwyd**

29.—(1) Ni fydd Rhan 3 yn gymwys i gynhyrchion y deuir â hwy i Gymru o gyfrwng cludo sy'n gweithredu'n rhyngwladol a'r rheini'n gynhyrchion a oedd wedi'u bwriadu i'w bwyta gan griw neu deithwyr y cyfrwng cludo hwnnw.

(2) Rhaid i unrhyw berson y mae cynnyrch y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1) yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth gydymffurfio ag Erthygl 4(2) a (3) o Reoliad (EC) Rhif 1774/2002.

(3) Pan fo eitemau megis deunyddiau pecynnu, neu gytleri neu blatiau tafladwy—

- (a) wedi bod mewn cyffyrddiad â chynnyrch y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1); a
- (b) yn cael eu dadlwytho o'r cyfrwng cludo er mwyn eu gwaredu,

rhaid i'r person y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (2) sicrhau yr ymdrinnir â'r eitemau hynny yn yr un ffordd â'r cynhyrchion eu hunain.

### **Cymeradwyo safleoedd tirlenwi**

**30.**—(1) Caiff unrhyw berson sy'n gwaredu deunydd yn unol â rheoliad 29 drwy ei gladdu ar safle tirlenwi wneud hynny ar safle tirlenwi a gymeradwyir o dan y rheoliad hwn yn unig.

(2) Dim ond os yw wedi'i fodloni ar y canlynol y caiff y Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo safle tirlenwi at ddibenion gwaredu deunydd o dan reoliad 29—

- (a) y byddai'r deunydd yn cael ei gladdu heb oedi gormodol er mwyn atal adar gwyllt rhag mynd ato;
- (b) bod y gweithredydd wedi cymryd camau digonol i atal carnolion rhag mynd i'r rhan o'r safle tirlenwi sydd heb ei hadfer ac i'r rhan o'r safle tirlenwi sy'n cael ei gweithio ar y pryd; ac
- (c) y byddai'r gweithredydd yn cydymffurfio ag unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r gymeradwyaeth.

(3) Rhaid i'r gymeradwyaeth fod yn ysgrifenedig, caniateir ei gwneud yn ddarostyngedig i amodau a'i diwygio neu ei hatal drwy hysbysiad ysgrifenedig yn unol â rheoliad 32.

(4) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gwrthod rhoi cymeradwyaeth, neu'n rhoi cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amod, rhaid iddo wneud y canlynol drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r ceisydd—

- (a) rhoi'r rhesymau dros wneud hynny; a
- (b) esbonio hawl y ceisydd i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i ymddangos gerbron person annibynnol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a chael gwrandawriad gan y person hwnnw yn unol â rheoliad 33.

### **Gweithredwyr safleoedd tirlenwi**

**31.**—(1) Rhaid i weithredydd safle tirlenwi a gymeradwywyd yn unol â rheoliad 30—

- (a) cynnal a gweithredu'r fangre yn unol â'r gofynion yn rheoliad 30(2)(a) a (b) ac unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r gymeradwyaeth;
- (b) sicrhau bod unrhyw berson a gyflogir gan y gweithredydd, ac unrhyw berson y caniateir iddo fynd i mewn i'r fangre, yn cydymffurfio â'r gofynion a'r amodau hynny;
- (c) cydymffurfio â'r gofynion ynghylch cadw cofnodion a gynhwysir yn Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 1774/2002; ac
- (ch) cadw cofnodion cyfatebol ar gyfer deunydd y cyfeiriwyd ato yn rheoliad 29(3).

(2) Caiff y cofnodion y mae'n ofynnol eu cadw o dan y rheoliad hwn fod ar ffurf ysgrifenedig neu electronig a rhaid eu cadw am ddwy flynedd o leiaf.

### **Diwygio, atal a dirymu cymeradwyaethau**

**32.**—(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni nad yw unrhyw un o amodau'r gymeradwyaeth bellach yn cael ei chyflawni, neu na chydymffurfir â'r gofynion yn rheoliad 30(2) (a) a (b), neu ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny am resymau iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid, caiff, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r gweithredydd, atal y gymeradwyaeth.

(2) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni y dylid diwygio unrhyw un o amodau'r gymeradwyaeth am resymau iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid, caiff ddiwygio'r gymeradwyaeth drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r gweithredydd.

- (3) O ran ataliad o dan baragraff (1) neu ddiwygiad o dan baragraff (2)—
- (a) bydd yn effeithiol ar unwaith os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni ei bod yn angenrheidiol iddo wneud hynny er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid; a
  - (b) ni fydd yn effeithiol fel arall am o leiaf un ar hugain o ddiwrnodau ar ôl cyflwyno'r hysbysiad.
- (4) Rhaid i'r hysbysiad ym mharagraff 32(1) neu (2)—
- (a) rhoi'r rhesymau dros yr ataliad neu'r diwygiad; a
  - (b) esbonio hawl gweithredydd y fangre i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol a chael gwrandawriad gan berson annibynnol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 33.
- (5) Pan fo apêl o dan reoliad 33 ni fydd diwygiad neu ataliad yn effeithiol tan benderfyniad terfynol y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r rheoliad hwnnw oni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn credu ei bod yn angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid i'r diwygiad neu'r ataliad ddod yn effeithiol yn gynt.
- (6) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol wedi atal cymeradwyaeth, ac —
- (a) nad oes unrhyw apêl wedi'i dwyn yn unol â rheoliad 33; neu
  - (b) bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cadarnhau'r ataliad yn dilyn apêl o'r fath,
- caiff ddirymu'r gymeradwyaeth drwy hysbysiad ysgrifenedig ar yr amod ei fod wedi'i fodloni, o ystyried holl amgylchiadau'r achos, na fyddai'r fangre yn cael ei gweithredu yn unol â gofynion rheoliad 30(2)(a) neu (b) neu amodau'r gymeradwyaeth, os oes rhai.

## Apelau

- 33.**—(1) Caiff person y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan baragraff (4) o reoliad 30 neu baragraff (1) neu (2) o reoliad 32 o fewn un ar hugain o ddiwrnodau gan gychwyn ar y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad—
- (a) darparu sylwadau ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol; a
  - (b) rhoi hysbysiad ysgrifenedig ei fod yn dymuno ymddangos gerbron person annibynnol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a chael gwrandawriad gan y person hwnnw.
- (2) Pan fo apelydd yn rhoi hysbysiad o'i ddymuniad i ymddangos gerbron person annibynnol a benodwyd at y diben hwnnw a chael gwrandawriad ganddo—
- (a) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi person annibynnol i wrando ar y sylwadau a phennu terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno'r sylwadau i'r person annibynnol hwnnw;
  - (b) rhaid i'r person a benodir felly beidio â bod, ac eithrio gyda chydysyniad yr apelydd, yn swyddog neu'n was i'r Cynulliad Cenedlaethol;
  - (c) os yw'r apelydd yn gofyn am hynny, rhaid i'r gwrandawriad fod yn gyhoeddus;
  - (ch) rhaid i'r person annibynnol gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol; a
  - (d) os bydd yr apelydd yn gofyn amdano, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu copi iddo o adroddiad y person annibynnol.
- (3) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi i'r apelydd hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad terfynol a'r rhesymau drosto.

## RHAN 5

### Cynhyrchion y Bwriedir eu Mewnforio

#### Dal gafael ar ddogfennau wrth safleoedd arolygu ar y ffin

34. Pan fo gwiriad dogfennol wedi'i gyflawni wrth safle arolygu ar y ffin ar gynnyrch sydd wedi'i fwriadu (p'un ai'n uniongyrchol neu yn y pen draw) ar gyfer ei fewnforio, rhaid i'r person a gyflwynodd y dogfennau gofynnol ynglyn â'r cynnyrch hwnnw o dan reoliad 18 ildio'r rheini i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu hwnnw ar y ffin.

#### Tystiolaeth am ardystio gwiriadau milfeddygol a thalu amdanynt

35. Pan fo Rhan 2 o'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin wedi'i dyroddi a'i bod yn ardystio bod llwyth yn ffit i'w fewnforio, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y llwyth sicrhau bod y Comisiynwyr wedi cael tystiolaeth sy'n eu boddhau am y canlynol—

- (a) bod Rhan 2 o'r ddogfen honno wedi'i dyroddi; a
- (b) bod yr holl ffioedd sy'n daladwy yn unol â Rhan 9 o'r Rheoliadau hyn am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd ar y llwyth, gan gynnwys samplu, ac am unrhyw brawf a wnaed ar unrhyw samplau a gymerwyd neu ddadansoddiad a wnaed o'r samplau hynny—
  - (i) wedi'i wneud; neu
  - (ii) bod taliad amdanynt wedi'i sicrhau drwy flaendal neu warant sy'n boddhau'r person y mae'r ffioedd yn daladwy iddo o dan reoliad 54(2).

#### Cynhyrchion nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer y Deyrnas Unedig

36.—(1) Pan fo—

- (a) hysbysiad o ddod â chynnyrch i mewn wedi'i roi o dan reoliad 17; a
- (b) yr hysbysiad hwnnw yn pennu Aelod-wladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig yn gyrchwlad; ac
- (c) yr amgylchiadau a grybwyllir ym mharagraff (2) yn gymwys,

ni chaiff neb, heb esgus rhesymol, rhwystro na gohirio'r broses o gludo'r cynnyrch hwnnw i'r Aelod-wladwriaeth honno.

(2) Yr amgylchiadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1)(c) yw bod Rhan 2 o'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin wedi'i dyroddi ar gyfer y cynnyrch hwnnw, ac yn awdurdodi ei fewnforio—

- (a) i'r Aelod-wladwriaeth honno neu i ardal benodol ohoni yn unol â gofynion penodol; neu
- (b) at ddibenion penodol yn unol ag amodau,

a bod y gofynion neu'r amodau hynny wedi'u gosod ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu mewnforio i'r Aelod-wladwriaeth neu'r ardal benodol honno, neu ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu mewnforio at y dibenion penodol hynny, mewn unrhyw Gyfarwyddeb, Penderfyniad neu Reoliad a restrir yn Atodlen 1.

#### Cynhyrchion a gludir o dan oruchwyliaeth

37.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gynhyrchion y bwriedir eu mewnforio ac y mae'n ofynnol iddynt, o dan unrhyw Gyfarwyddeb, Penderfyniad neu Reoliad a restrir yn Atodlen 1, gael eu cludo o dan oruchwyliaeth milfeddyg o'r safle arolygu ar y ffin lle daethpwyd â hwy gyntaf i'r tiriogaethau perthnasol i'w sefydliad cyrchfan.

(2) Ni chaiff neb symud cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo o safle arolygu ar y ffin oni bai ei fod wedi'i gynnwys mewn cynhwysydd sy'n ddiogel rhag gollyngiadau neu gyfrwng cludo sydd wedi'i selio gan swyddog Cyllid a Thollau neu gan y milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu hwnnw ar y ffin.

(3) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo ac unrhyw gludydd y mae o dan ei ofal am y tro sicrhau bod y cynnyrch yn cael ei gludo'n ddi-oed i'w sefydliad cyrchfan, a bod y ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin yn mynd gydag ef hyd nes iddo gyrraedd ei sefydliad cyrchfan.

(4) Pan fo Rhan 2 o'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin wedi awdurdodi mewnforio cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo at ddibenion penodol a ddisgrifiwyd yn rheoliad 36(2)(b) rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch ac unrhyw gludydd sydd â gofal drosto am y tro sicrhau ei fod yn aros o dan oruchwyliaeth y Comisiynwyr yn unol â'r weithdrefn T5 y darperir ar ei chyfer yn Erthyglau 471 i 495 o Reoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 2454/93 (sy'n gosod darpariaethau ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2913/92 yn sefydlu'r Cod Tollau Cymunedol)(24) hyd nes iddo gyrraedd ei sefydliad cyrchfan.

(5) Rhaid i weithredydd sefydliad cyrchfan roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i'r milfeddyg, sy'n gyfrifol ar ran y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth am y sefydliad cyrchfan, fod unrhyw gynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo wedi cyrraedd yno.

(6) Rhaid i weithredydd sefydliad cyrchfan sicrhau bod cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn cael, yn y sefydliad cyrchfan, y driniaeth a ragnodir ar ei gyfer gan y Gyfarwydddeb berthnasol, y Penderfyniad perthnasol neu'r Rheoliad perthnasol a restrir yn Atodlen 1.

### **Trawslwytho cynhyrchion y bwriedir eu mewnforio**

**38.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gynhyrchion a drawslwythwyd pan fo'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno yng Nghymru.

(2) Cyn gynted ag y bo cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn cyrraedd y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno, rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch hysbysu'r milfeddyg swyddogol yno yn ysgrifenedig, neu ar ffurf gyfrifiadurol neu ffurf electronig arall, o union leoliad y cynnyrch, o'r amser yr amcangyfrifir y byddai'n cael ei drawslwytho neu ei ddadlwytho, ac o'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan.

(3) Pan fo cynnyrch, yn ôl yr hysbysiad a roddwyd yn unol â pharagraff (2) i'w drawslwytho, a hwnnw'n gynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo—

- (a) o un awyren i un arall, naill ai'n uniongyrchol neu ar ôl iddo gael ei ddadlwytho mewn man o dan reolaeth y dollfa wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno am lai na deuddeg awr; neu
- (b) o un llestr fordwyol i un arall, naill ai'n uniongyrchol neu ar ôl ei ddadlwytho mewn man o dan reolaeth y dollfa wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno am lai na saith niwrnod,

mae'r amodau a osodir ym mharagraff (4) yn gymwys.

(4) Dyma'r amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3)—

- (a) pan fo rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol i berson roi'r cynnyrch a'i ddogfennau gofynnol i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno, neu sicrhau eu bod yn cael eu rhoi iddo; a
- (b) os yw'r milfeddyg swyddogol o'r farn bod y cynnyrch yn peri risg i iechyd anifeiliaid neu i iechyd y cyhoedd,

(24) OJ Rhif L253, 11.10.93, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 402/2006 (OJ Rhif L070, 09.03.2006, t. 35).

rhaid i'r person a grybwyllir yn is-baragraff (a) ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol, neu i gynorthwydd a benodwyd o dan reoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c) gyflawni gwiriad dogfennol ar y dogfennau gofynnol.

(5) Mae paragraff (6) yn gymwys pan fwriedir—

- (a) dadlwytho cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo o awyren; a
- (b) ail lwytho'r cynnyrch hwnnw ar awyren o fewn cyfnod o ddim llai na deuddeng awr ac o ddim mwy na 48 awr o'r amser pan gafodd ei ddadlwytho.

(6) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch sicrhau—

- (a) ei fod yn cael ei storio o dan oruchwyliaeth y milfeddyg swyddogol yn y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno mewn lle yno sydd o dan reolaeth y dollfa; a
- (b) ei fod wedyn yn cael ei ail-lwytho ar awyren i'w gludo ymlaen i'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer ei gyrchfan.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys pan fwriedir—

- (a) dadlwytho cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo o lestr fordwyol; a
- (b) ail lwytho'r cynnyrch hwnnw ar long fordwyol o fewn cyfnod o ddim llai na saith niwrnod ac o ddim mwy nac ugain niwrnod o'r amser pan gafodd ei ddadlwytho.

(8) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch sicrhau—

- (a) ei fod yn cael ei storio o dan oruchwyliaeth y milfeddyg swyddogol yn y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno mewn lle yno sydd o dan reolaeth y dollfa; a
- (b) ei fod wedyn yn cael ei ail-lwytho ar lestr fordwyol i'w gludo ymlaen i'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer ei gyrchfan.

(9) Rhaid i unrhyw berson y mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno cynnyrch y mae paragraffau (5) a (6) neu baragraffau (7) ac (8) yn gymwys iddo, ynghyd â'i ddogfennau gofynnol, i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol yno, neu gynorthwydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c), gyflawni gwiriad dogfennol ar y dogfennau gofynnol ac hefyd, os yw'r milfeddyg swyddogol o'r farn bod y cynnyrch yn peri risg i iechyd anifeiliaid neu i iechyd y cyhoedd, wriiad adnabod ar y cynnyrch hwnnw yn erbyn y dogfennau gofynnol a gwiriad ffisegol o'r cynnyrch.

(10) Pan fwriedir—

- (a) dadlwytho cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo a storio'r cynnyrch hwnnw am fwy na 48 awr ar ôl ei ddadlwytho; neu
- (b) dadlwytho cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo o lestr fordwyol a storio'r cynnyrch hwnnw am fwy nag ugain niwrnod ar ôl ei ddadlwytho,

rhaid i unrhyw berson y mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi'r cynnyrch a'i ddogfennau gofynnol i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyflwyno, ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol yno, neu gynorthwydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c), gyflawni, ym mhob achos, wriiad adnabod o'r cynnyrch yn erbyn y dogfennau gofynnol a gwiriad ffisegol o'r cynnyrch.

## RHAN 6

### Cynhyrchion Tramwy

#### Safleoedd arolygu ar y ffin ar gyfer dod i mewn ac ymadael

39. Yn y Rhan hon—

ystyr “safle arolygu ar y ffin ar gyfer dod i mewn” (“*border inspection post of entry*”) yw'r safle arolygu ar y ffin lle y mae cynnyrch tramwy yn dod i mewn i diriogaeth dollau'r Gymuned; ac ystyr

“safle arolygu ar y ffin ar gyfer ymadael” (“*border inspection post of exit*”) yw'r safle arolygu ar y ffin y bwriedir i gynnyrch tramwy ymadael â thiriogaeth dollau'r Gymuned drwyddo, fel a bennir yn y ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin sy'n ymwneud â'r cynnyrch hwnnw.

### **Awdurdodi tramwy ymlaen llaw**

**40.** Ni chaiff neb gyflwyno cynnyrch tramwy i Gymru o drydedd wlad oni bai bod y milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer dod i mewn wedi awdurdodi'n ysgrifenedig ymlaen llaw dramwyad y cynnyrch hwnnw.

### **Gwiriad ffisegol o gynhyrchion tramwy**

**41.** Dim ond os yw'r milfeddyg swyddogol o'r farn bod cynnyrch tramwy yn peri risg i iechyd anifeiliaid neu i iechyd y cyhoedd neu'n amau'n rhesymol fod rhyw afreoleidd-dra arall, fel y'i diffinnir yn rheoliad 21(10), mewn perthynas â'r cynnyrch tramwy, y mae angen i unrhyw berson y mae'n ofynnol o dan reoliad 18 iddo roi cynnyrch tramwy i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer dod i mewn, neu sicrhau ei fod yn cael ei roi iddo, ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol neu gynorthwydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c) gyflawni gwiriad ffisegol ar y cynnyrch tramwy.

### **Symud cynhyrchion tramwy**

**42.—(1)** Ni chaiff neb symud cynnyrch tramwy o'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer dod i mewn na pheri iddo gael ei symud oni bai bod y person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch wedi rhoi ymrwymiad ysgrifenedig i'r milfeddyg swyddogol yno y bydd yn dilyn ac yn cyflawni gofynion rheoliad 43.

(2) Pan fydd cynnyrch tramwy yn cael ei gludo, ar unrhyw adeg ar ôl ei symud o safle arolygu ar y ffin ar gyfer dod i mewn, drwy Gymru ar hyd ffordd, rheilffordd, dyfrffordd neu drwy'r awyr—

(a) rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch tramwy ac unrhyw gludydd sydd â gofal drosto am y tro sicrhau ei fod yn cael ei gludo mewn cerbyd neu gynhwysydd sydd wedi'i selio gan y Comisiynwyr neu gan yr awdurdodau milfeddygol sy'n gyfrifol am y safle arolygu ar y ffin ar gyfer dod i mewn, bod ei ddogfennau gofynnol, unrhyw gyfieithiadau sy'n ofynnol o dan reoliad 18(4) a'i ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin yn mynd gydag ef i'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer ymadael, a hynny o dan oruchwyliaeth y Comisiynwyr yn unol â'r weithdrefn tramwy allanol y cyfeirir ati yn Erthyglau 91 i 97 o'r Cod Tollau;

(b) ni chaiff neb—

(i) torri'r seliau ar y cerbyd neu'r cynhwysydd y mae'r cynnyrch tramwy yn cael ei gludo ynddo;

(ii) dadlwytho'r cynnyrch tramwy;

(iii) hollti'r llwyth na'r rhanlwyth sy'n cynnwys y cynnyrch tramwy; na

(iv) peri i'r cynnyrch tramwy gael ei drafod mewn unrhyw fodd; ac

(c) rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch tramwy ac unrhyw gludydd sydd â gofal drosto am y tro sicrhau ei fod yn ymadael â thiriogaeth dollau'r Gymuned wrth y safle arolygu ar y ffin ar gyfer ymadael heb fod yn hwy na 30 o ddiwrnodau ar ôl ei symud o'r safle arolygu ar y ffin ar gyfer dod i mewn (heb gynnwys dyddiad ei symud).

(3) Ni chaiff neb gyflwyno cynnyrch tramwy i barth rhydd, warws rydd na warws dollau yng Nghymru.

**Gwaredu cynhyrchion tramwy a ddychwelwyd**

43.—(1) Os bydd cynnyrch tramwy yn cael ei ddychwelyd i Gymru ar ôl ymadael â thiriogaeth dollau'r Gymuned, rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch tramwy naill ai—

- (a) anfon ymlaen y cynnyrch tramwy o'r safle arolygu ar y ffin y mae'n cael ei ddychwelyd i drydedd wlad drwyddo drwy'r dull cludo a ddefnyddiwyd i'w ddychwelyd a hynny o fewn trigain o ddiwrnodau iddo gael ei ddychwelyd (heb gynnwys y dyddiad y cafodd ei ddychwelyd); neu
- (b) os yw'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (2) yn gymwys, gwaredu'r cynnyrch fel pe bai'n ddeunydd Categori 1 o dan Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 yn y cyfleusterau a ddarparwyd at y diben hwnnw ac sydd agosaf at y safle arolygu ar y ffin y dychwelir y cynnyrch iddo.

(2) Rhaid gwaredu'r cynnyrch tramwy yn unol â pharagraff (1)(b)—

- (c) pan fydd anfon y cynnyrch ymlaen wedi'i ragwahardd ar sail iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd oherwydd canlyniadau gwiriad ffisegol, neu oherwydd unrhyw ofyniad iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd sydd wedi'i osod mewn offeryn Cymunedol sydd mewn grym ar y dyddiad y gwneir y Rheoliadau hyn, neu pan fydd yn amhosibl gwneud fel arall;
- (d) pan fydd y cyfnod o drigain o ddiwrnodau y cyfeirir ato ym mharagraff (a) wedi dod i ben; neu
- (e) pan fydd y person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch tramwy yn cytuno ar unwaith i'w waredu.

(3) Rhaid i unrhyw berson, y mae ganddo yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth y dogfennau gofynnol neu'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin sy'n ymwneud â chynnyrch tramwy y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, eu cyflwyno i'w hannylisu i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin y mae'r cynnyrch wedi'i ddychwelyd iddo.

(4) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros gynnyrch tramwy y mae paragraff (1) yn gymwys iddo ei storio nes iddo gael ei anfon ymlaen neu ei ddinistrio o dan oruchwyliaeth y milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin y mae'r cynnyrch wedi'i ddychwelyd iddo a hynny yn y man ac o dan yr amodau a gyfarwyddir gan y milfeddyg swyddogol.

(5) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros gynnyrch tramwy y mae paragraff (1) yn gymwys iddo dalu costau storio, cludo, anfon ymlaen a gwaredu'r cynnyrch hwnnw.

**RHAN 7**

Cynhyrchion a Fwriedir ar gyfer Warysau neu Storfeydd  
Llongau neu Gyfryngau Cludo Mordwyol Trawsffiniol

**Cymhwyso Rhan 7**

44. Mae'r Rhan hon yn gymwys i gynhyrchion y mae eu sefydliad cyrchfan—

- (a) yn warws mewn parth rhydd, warws rydd neu warws dollau, sydd wedi'i lleoli yn nhiriogaeth dollau'r Gymuned;
- (b) yn storfa long sy'n cydymffurfio ag Erthygl 13 o Gyfarwyddeb 97/78/EC sydd wedi'i lleoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig; neu
- (c) yn gyfrwng cludo mordwyol trawsffiniol.

### **Gwybodaeth ychwanegol sydd i'w rhoi ymlaen llaw**

45.—(1) Ni chaiff neb gyflwyno cynnyrch y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo i Gymru, na rhoi cynnyrch o'r fath gerbron mewn safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan yng Nghymru, oni bai bod y milfeddyg swyddogol y rhoddwyd hysbysiad iddo, yn unol â rheoliad 17, o gyflwyno neu o roi'r cynnyrch gerbron, wedi'i hysbysu—

- (a) a oes bwriad i fewnforio'r cynnyrch yn y pen draw;
- (b) onid oes, a yw'n gynnyrch tramwy, neu'n gynnyrch y mae ei sefydliad cyrchfan yn gyfrwng cludo mordwyol trawsffiniol; ac
- (c) sut bynnag, a yw'r cynnyrch yn cydymffurfio â'r amodau mewnforio.

(2) Rhaid i'r wybodaeth ym mharagraff (1) gael ei rhoi yn ysgrifenedig a chaniateir ei chynnwys yn yr hysbysiad o gyflwyno'r cynnyrch neu o'i roi gerbron a roddwyd yn unol â rheoliad 17.

### **Gwiriad ffisegol o gynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio**

46. Pan fo'r dogfennau gofynnol yn dangos bod cynnyrch y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo yn gynnyrch nad yw'n cydymffurfio, dim ond os yw'r milfeddyg swyddogol o'r farn ei fod yn peri risg i iechyd anifeiliaid neu i iechyd y cyhoedd y mae angen i unrhyw berson, y mae'n ofynnol iddo o dan reoliad 18 ei roi i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin, neu sicrhau ei fod yn cael ei roi iddo, ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol, neu gynorthwydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1) (b) neu 6(2)(c) gyflawni gwiriad corfforol ar y cynnyrch.

### **Gwahardd cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio o warysau**

47. Ni chaiff neb gyflwyno cynnyrch nad yw'n cydymffurfio i warws mewn parth rhydd, warws rydd na warws dollau yng Nghymru.

### **Symud yn uniongyrchol i gyfrwng cludo mordwyol trawsffiniol**

48. Ni chaiff neb symud cynnyrch y mae ei sefydliad cyrchfan yn gyfrwng cludo mordwyol trawsffiniol o'r safle arolygu ar y ffin lle cafodd ei gyflwyno ac eithrio yn uniongyrchol ac yn ddiymdroi i'r cyfrwng cludo mordwyol trawsffiniol hwnnw.

### **Tystysgrif ychwanegol i fynd gyda chynhyrchion sydd ar gyfrwng cludo mordwyol**

49.—(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol dros gynnyrch neu lwyth o gynhyrchion y mae ei sefydliad cyrchfan yn gyfrwng cludo mordwyol trawsffiniol, ac unrhyw gludydd sydd â gofal dros gynnyrch neu lwyth o'r fath am y tro, sicrhau bod y dystysgrif y cyfeirir ati yn Erthygl 13(2)(a) o Gyfarwyddeb 97/78/EC, sy'n gorfod bod yn seiliedig ar y patrwm yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2000/571/EC(25), yn mynd gyda'r cynnyrch neu'r llwyth o'r safle arolygu ar y ffin yr anfonir ef ohono nes bod y cynnyrch yn cael ei draddodi ar fwrdd y cyfrwng cludo mordwyol.

(2) Pan gaiff y cynnyrch neu'r llwyth ei draddodi ar fwrdd y cyfrwng cludo mordwyol, rhaid i feistr y cyfrwng cludo mordwyol hwnnw, neu gynrychiolydd swyddogol y meistr, gadarnhau bod y cynnyrch neu'r llwyth wedi ei draddodi drwy adlofnodi'r dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraff (1) a'i dychwelyd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i'r milfeddyg swyddogol yn y safle arolygu ar y ffin y cafodd y cynnyrch neu'r llwyth ei anfon ohono (fel y dangosir ar y dystysgrif).

(3) Mae gofynion y rheoliad hwn yn gymwys yn ychwanegol at ofynion rheoliad 20 (sy'n ymwneud â'r ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin).

## RHAN 8

### Cynhyrchion a Ddychwelwyd o Drydydd Gwledydd

#### Ystyr “tystysgrif allforio”

**50.** Yn y Rhan hon, ystyr “tystysgrif allforio”, mewn perthynas â chynnyrch a ddychwelwyd, yw tystysgrif—

- (a) a ddyroddwyd gan awdurdodau gwlad yr allforio gwreiddiol; a
- (b) sy'n datgan bod y cynnyrch a ddychwelwyd yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol sydd gan y wlad sy'n derbyn y cynnyrch ac yr allforiwyd y cynnyrch iddo'n wreiddiol ar gyfer iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd.

#### Dogfennau ychwanegol ar gyfer cynhyrchion a ddychwelwyd

**51.** Rhaid i unrhyw berson sy'n rhoi gerbron, yn unol â rheoliad 18 gynnyrch a ddychwelwyd a'i ddogfennau gofynnol i filfeddyg swyddogol, roi'r canlynol gerbron gyda'r dogfennau gofynnol—

- (a) y dystysgrif allforio sy'n ymwneud â'r cynnyrch a ddychwelwyd neu gopi y dilyswyd ei fod yn gopi cywir gan yr awdurdod a'i dyroddodd;
- (b) datganiad o'r rhesymau pam y cafodd y cynnyrch a ddychwelwyd ei wrthod gan y drydedd wlad;
- (c) datganiad gan y person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch a ddychwelwyd yn dweud y bu cydymffurfiaeth, ers i'r cynnyrch a ddychwelwyd gael ei allforio'n wreiddiol o diriogaeth dollau'r Gymuned, ag amodau mewnfario ynglyn â storio a chludo mewn perthynas â'r cynnyrch a ddychwelwyd; a naill ai
- (ch) yn achos cynnyrch a ddychwelwyd na chafodd ei allforio'n wreiddiol mewn cynhwysydd wedi'i selio, datganiad gan y person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch a ddychwelwyd nad yw'r cynnyrch wedi cael ei drafod mewn unrhyw fodd heblaw, yn achos cynhyrchion sydd wedi'u pecynnu'n unig, am lwytho a dadlwytho pecynnau sydd heb eu hagog; neu
- (d) yn achos cynnyrch a ddychwelwyd ac a allforiwyd yn wreiddiol mewn cynhwysydd wedi'i selio, datganiad gan y cludydd sy'n dod â'r cynnyrch i Gymru nad yw wedi'i ddadlwytho o'r cynhwysydd y cafodd ei allforio ynddo, nac wedi cael ei drafod fel arall.

#### Gwiriad ffisegol o gynhyrchion a ddychwelwyd

**52.** Dim ond os oes gan y milfeddyg swyddogol seilau rhesymol dros gredu—

- (a) na chydymffurfiwyd, neu na chydymffurfir, â'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r cynnyrch a ddychwelwyd;
- (b) nad yw'r cynnyrch a ddychwelwyd yn cydymffurfio â'r amodau mewnfario; neu
- (c) nad yw manylion adnabod neu gyrchfan y cynnyrch a ddychwelwyd yn cyfateb i'r wybodaeth a roddwyd ar unrhyw ddogfen berthnasol

y mae angen i unrhyw berson y mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi cynnyrch a ddychwelwyd gerbron y milfeddyg swyddogol wrth safle arolygu ar y ffin, neu sicrhau fod y cynnyrch hwnnw yn cael ei roi ger ei fron, ganiatáu i filfeddyg swyddogol neu gynorthwydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c), gyflawni gwiriad ffisegol ar y cynnyrch a ddychwelwyd.

### Symud cynhyrchion a ddychwelwyd

53.—(1) Ni chaiff neb symud cynnyrch a ddychwelwyd o safle arolygu ar y ffin, na pheri iddo gael ei symud,—

- (a) heb awdurdodiad ysgrifenedig y milfeddyg swyddogol yno; a
- (b) oni bai ei fod wedi'i gynnwys mewn cynhwysydd sy'n ddiogel rhag gollyngiadau neu mewn cyfrwng cludo sydd wedi'i selio gan un o swyddogion Refeniw a Thollau neu gan y milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu hwnnw ar y ffin.

(2) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros gynnyrch a ddychwelwyd ac a symudwyd yn unol â pharagraff (1), ac unrhyw gludydd sydd â gofal drosto am y tro sicrhau—

- (a) ei fod yn cael ei gludo'n uniongyrchol i'w sefydliad tarddiad Cymunedol yn y cynhwysydd seliedig sy'n ddiogel rhag gollyngiadau neu yn y cyfrwng cludo y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (b); a
- (b) bod ei ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin yn mynd gydag ef hyd oni fydd y cynnyrch a ddychwelwyd yn cyrraedd ei sefydliad tarddiad Cymunedol.

(3) Ni chaiff neb—

- (a) dorri'r seliau ar y cynhwysydd neu'r cyfrwng cludo y mae'r cynnyrch a ddychwelwyd yn cael ei gludo ynddo;
- (b) dadlwytho'r cynnyrch a ddychwelwyd;
- (c) hollti'r llwyth neu'r rhanlwyth sy'n cynnwys y cynnyrch a ddychwelwyd; na
- (ch) peri i'r cynnyrch a ddychwelwyd gael ei drafod mewn unrhyw fodd,

nes i'r cynnyrch gyrraedd ei sefydliad tarddiad Cymunedol.

(4) Rhaid i weithredydd y sefydliad tarddiad Cymunedol roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i'r swyddog milfeddygol sy'n gyfrifol ar ran y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth ar gyfer y sefydliad hwnnw fod y cynnyrch a ddychwelwyd wedi cyrraedd yno.

## RHAN 9

### Ffioedd am Wiriadau Milfeddygol

#### Talu ffioedd

54.—(1) Codir ffi resymol a gaiff ei chyfrifo yn unol â rheoliadau 55 a 56 ac Atodlen 3 am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd ar lwyth wrth safle arolygu ar y ffin.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, awdurdod lleol neu'r Asiantaeth godi'r ffi a bydd yn daladwy i ba un bynnag sy'n gyfrifol, yn unol â rheoliad 5, am weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn wrth y safle arolygu ar y ffin lle cyflawnir y gwiriadau milfeddygol.

#### Cyfrifo ffioedd

55. Rhaid i'r ffi am wiriadau milfeddygol gwmpasu'r costau a restrir yn Rhan I o Atodlen 3 a rhaid ei chyfrifo yn unol â Rhan II, III, IV neu V, yn ôl y digwydd, o Atodlen 3.

#### Trosi'r ffioedd i sterling

56. Rhaid i ffioedd a fynegir mewn ewros yn Atodlen 3 gael eu trosi'n bunnoedd sterling yn ôl y gyfradd drosi sy'n cael ei chyhoeddi yng nghyfres "C" o Gylchgrawn Swyddogol y Cymunedau

Ewropeaidd ym mis Medi'r flwyddyn galendr cyn y flwyddyn y cyflawnwyd y gwiriad milfeddygol perthnasol ynddi.

### **Atebolrwydd am ffioedd**

**57.** Pan ofynnir iddo wneud hynny, rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros lwyth dalu'r ffi a godir am y gwiriadau milfeddygol a gyflawnwyd ar y llwyth.

### **Gwybodaeth am ffioedd**

**58.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, awdurdod lleol neu'r Asiantaeth, os gofynnir yn ysgrifenedig iddo neu iddi wneud hynny, ddarparu ar gyfer unrhyw berson sy'n rhoi cynhyrchion gerbron yn unol â rheoliad 18, neu ar gyfer unrhyw gorff sy'n cynrychioli personau o'r fath, fanylion y cyfrifiadau y mae'n eu defnyddio i benderfynu ffioedd am wiriadau milfeddygol a rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan berson neu gorff o'r fath wrth benderfynu ffioedd o'r fath.

(2) Os gofynnir iddo'n ysgrifenedig wneud hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth, rhaid i awdurdod lleol ddarparu ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth, yn ôl y digwydd, yr wybodaeth y gallai fod ei hangen arno neu arni mewn cysylltiad â chyfrifo'r ffioedd am wiriadau milfeddygol, ynghyd â chopïau o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan bersonau neu gyrff cyfeirir atynt ym mharagraff (1).

### **Apelau yn erbyn ffioedd a dalwyd i awdurdodau lleol**

**59.**—(1) Caiff unrhyw berson sydd wedi talu ffi am wiriadau milfeddygol i awdurdod lleol ac unrhyw gorff sy'n cynrychioli personau o'r fath, o fewn un niwrnod ar hugain o godi'r ffi, apelio'n ysgrifenedig ar y sail bod swm y ffi yn afresymol—

- (a) i'r Cynulliad Cenedlaethol, os ffi am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw un o swyddogaethau'r Asiantaeth yw'r ffi; a
- (b) i'r Asiantaeth, os ffi am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd mewn perthynas ag unrhyw un o swyddogaethau'r Asiantaeth yw'r ffi.

(2) Pan fo apêl o dan baragraff (1), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth, yn ôl y digwydd—

- (a) ymgynghori â'r awdurdod lleol; a
- (b) os caiff ei fodloni neu ei bodloni bod swm y ffi yn afresymol, rhaid iddo neu iddi hysbysu'r awdurdod lleol.

(3) Pan gaiff ei hysbysu o dan baragraff (2)(b), rhaid i'r awdurdod lleol—

- (a) ailgyfrifo swm y ffi yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth, yn ôl y digwydd; a
- (b) ad-dalu i'r person a dalodd y ffi y gwahaniaeth rhwng y ffi wreiddiol a'r ffi a ailgyfrifwyd.

### **Apelau yn erbyn ffioedd a dalwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol neu i'r Asiantaeth**

**60.**—(1) Caiff unrhyw berson sydd wedi talu ffi am wiriadau milfeddygol i'r Cynulliad Cenedlaethol neu i'r Asiantaeth, ac unrhyw gorff sy'n cynrychioli personau o'r fath, cyn pen un diwrnod ar hugain ar ôl i'r ffi gael ei chodi, roi hysbysiad ysgrifenedig o'i ddymuniad i apelio i berson annibynnol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu pan fo'r ffi wedi'i thalu i'r Asiantaeth, i berson annibynnol a benodwyd gan yr Asiantaeth, ar y sail bod swm y ffi yn afresymol.

(2) Pan fo'r ffi wedi ei thalu i'r Asiantaeth, rhaid i swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mharagraff (3) a (4) gael eu cyflawni gan yr Asiantaeth.

(3) Pan fo apelydd yn rhoi hysbysiad o'i ddymuniad i ymddangos gerbron person annibynnol a benodwyd at y diben hwnnw a chael gwrandawriad ganddo —

- (a) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi person annibynnol i wrando ar y sylwadau a phennu terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno sylwadau i'r person annibynnol hwnnw;
- (b) rhaid i'r person a benodir beidio â bod, ac eithrio gyda chydysyniad yr apelydd, yn un o swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol nac yn un sy'n ei wasanaethu;
- (c) os yw'r apelydd yn gofyn am hynny, rhaid i'r gwrandawriad fod yn un cyhoeddus;
- (ch) rhaid i'r person annibynnol gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol; a
- (d) os bydd yr apelydd yn gofyn amdano, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu copi iddo o adroddiad y person annibynnol.

(4) Os caiff y person annibynnol ei fodloni bod swm y ffi yn afresymol, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ailgyfrifo'r ffi yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y person annibynnol ac ad-dalu i'r person a dalodd y ffi y gwahaniaeth rhwng y ffi wreiddiol a'r ffi a ailgyfrifwyd.

## RHAN 10

### Datganiadau Brys

#### Brigiadau clefyd mewn trydydd gwledydd

**61.**—(1) Pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Asiantaeth yn cael ar ddeall fod yna mewn trydedd wlad, neu pan fydd ganddo neu ganddi seiliau rhesymol dros amau fod yno,—

- (a) clefyd y cyfeirir ato yng Nghyfarwydddeb y Cyngor 82/894/EEC (ar hysbysu o glefydau anifeiliaid o fewn y Gymuned)(**26**); neu
- (b) milhaint neu glefyd arall neu ffenomen neu amgylchiad sy'n debyg o fod yn fygythiad difrifol i iechyd anifeiliaid neu i iechyd y cyhoedd,

neu os oes unrhyw reswm difrifol arall yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd yn gwarantu hynny, caiff atal unrhyw gynnyrch o'r cyfan neu o unrhyw ran o'r drydedd wlad honno rhag cael ei gyflwyno i Gymru, neu caiff osod amodau ar ei gyflwyno, drwy ddatganiad.

(2) Rhaid i ddatganiad o'r fath—

- (a) fod yn ysgrifenedig;
- (b) cael ei gyhoeddi mewn modd y gwêl y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth, yn ôl y digwydd, yn dda; a
- (c) rhaid iddo bennu'r cynhyrchion a'r drydedd wlad neu'r rhan ohoni sydd o dan sylw.

(3) Rhaid i ddatganiad sy'n gosod amodau ar gyflwyno unrhyw gynnyrch o drydedd wlad neu ran ohoni i Gymru bennu'r amodau hynny.

(4) Pan fo datganiad mewn grym sy'n atal cyflwyno unrhyw gynnyrch, ni chaiff neb gyflwyno'r cynnyrch hwnnw i Gymru os yw'n tarddu o'r drydedd wlad neu'r rhan ohoni a bennir yn y datganiad.

(5) Pan fo datganiad mewn grym sy'n gosod amodau ar gyflwyno unrhyw gynnyrch, ni chaiff neb gyflwyno'r cynnyrch hwnnw i Gymru os yw'n tarddu o'r drydedd wlad neu'r rhan ohoni a bennir yn y datganiad oni bai bod y cynnyrch yn cydymffurfio â'r amodau a bennir yn y datganiad.

(6) Ceir addasu, atal neu ddirymu datganiad gan ddatganiad ysgrifenedig pellach a gyhoeddir, cyhyd ag y bo'n ymarferol, yn yr un modd ac i'r un graddau â'r datganiad gwreiddiol.

(26) OJ Rhif L378, 31.12.82, t. 58, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2004/216/EC (OJ Rhif L67, 5.3.2004, t. 27).

## RHAN 11

### Tramgwyddau a Chosbau

#### Rhwystro

**62.** Ni chaiff neb—

- (a) rhwystro unrhyw berson yn fwriadol wrth iddo arfer pwer a roddwyd gan reoliad 8 na 9 nac wrth iddo gyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall;
- (b) methu cydymffurfio heb esgus rhesymol â gofyniad a osodwyd arno yn unol â rheoliad 8 neu 9 neu fethu rhoi i unrhyw berson sy'n arfer pwer a roddwyd gan y rheoliadau hynny, neu sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall, unrhyw gymorth neu wybodaeth y gall fod ar y person hwnnw angen rhesymol amdano neu amdani er mwyn arfer y pwer neu gyflawni'r swyddogaeth; na
- (c) rhoi i unrhyw berson sy'n arfer pwer a roddwyd gan reoliad 8 neu 9 neu sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall unrhyw wybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn ffug neu'n gamarweiniol.

#### Amddiffyniadau

**63.**—(1) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dorri un o ddarpariaethau'r rheoliadau a restrir yn Atodlen 4, bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r tramgwydd ei hun neu i osgoi iddo gael ei gyflawni gan berson o dan ei reolaeth.

(2) Os yw'r amddiffyniad sy'n cael ei ddarparu gan baragraff (1) mewn unrhyw achos yn cynnwys honni bod y tramgwydd wedi'i gyflawni oherwydd gweithred neu fethiant person arall, neu oherwydd i'r person a gyhuddir ddibyynu ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson arall, ni chaiff y person a gyhuddir, heb ganiatâd y Llys, yr hawl i ddibyynu ar yr amddiffyniad hwnnw, oni bai—

- (a) o leiaf saith niwrnod clir cyn y gwrandawriad; a
- (b) pan fo'r sawl a gyhuddir wedi ymddangos o flaen llys, neu wedi cael ei ddwyn gerbron llys, o'r blaen mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig, o fewn un mis i'r ymddangosiad cyntaf hwnnw gan y sawl a gyhuddir,

ei fod wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r erlynydd yn rhoi unrhyw wybodaeth ag a oedd yn ei feddiant bryd hynny sy'n fodd i adnabod neu'n gymorth i adnabod y person arall hwnnw.

(3) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan reoliad 5(9), mae'n amddiffyniad i'r sawl a gyhuddir brofi ei fod yn credu'n rhesymol—

- (a) bod y datgeliad yn gyfreithlon; neu
- (b) bod yr wybodaeth eisoes wedi ei rhyddhau'n gyfreithlon i'r cyhoedd.

#### Toriadau

**64.** Bydd unrhyw un—

- (a) sy'n torri un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, ac eithrio—
  - (i) y darpariaethau a geir yn rheoliadau 8(3) a 19(3) sy'n cyfeirio at dalu costau; a
  - (ii) y darpariaethau a geir yn rheoliadau 23(7), 28, 43(5), 45(2) a 57; neu
- (b) sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir iddo o dan y Rheoliadau hyn,

yn euog o dramgwydd.

## Cosbau

65.—(1) Mae'r sawl sy'n euog o'r tramgwydd o dorri rheoliad 62(a) neu (b) yn agored i'w gollfarnu'n ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis, neu'r ddau.

(2) Mae'r sawl sy'n euog o unrhyw dramgwydd arall o dan y Rheoliadau hyn yn atebol—

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol, neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis neu i'r ddau;
- (b) o'i gollfarnu ar dditiad, i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu i ddirwy neu i'r ddau.

## Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol

66.—(1) Os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn sydd wedi'i gyflawni gan gorff corfforaethol—

- (a) wedi'i gyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad swyddog, neu
- (b) i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran,

bydd y swyddog, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r tramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Pan fo materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffygion aelod mewn cysylltiad â'i swyddogaethau rheoli fel pe bai'r aelod hwnnw yn un o gyfarwyddwyr y corff.

(3) ystyr “swyddog”, mewn perthynas â chorff corfforaethol yw cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb o'r corff, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn unrhyw swydd o'r fath.

## Tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd

67. Os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn sydd wedi'i gyflawni gan bartneriaeth Albanaidd wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran partner, bernir bod y partner hwnnw, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn euog o'r tramgwydd hwnnw a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

# RHAN 12

## Hysbysiadau a Phenderfyniadau

### Cyflwyno hysbysiadau

68.—(1) Caniateir i unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Rheoliadau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, yr Asiantaeth, milfeddyg swyddogol, arolygydd pysgod swyddogol neu swyddog awdurdodedig gael ei gyflwyno i berson drwy—

- (a) ei ddanfôn at y person hwnnw;
- (b) ei adael ym mhriod gyfeiriad y person hwnnw; neu
- (c) ei bostio i briod gyfeiriad y person hwnnw.

(2) Rhaid i unrhyw hysbysiad o'r fath sydd i'w gyflwyno i gorff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforaethol ac eithrio partneriaeth gael ei gyflwyno'n briodol i ysgrifennydd neu glerc y corff hwnnw neu i un o swyddogion tebyg eraill y corff.

(3) Rhaid i unrhyw hysbysiad o'r fath sydd i'w gyflwyno i bartneriaeth (gan gynnwys partneriaeth Albanaidd) gael ei gyflwyno'n briodol i bartner neu berson sy'n rheoli'r busnes partneriaeth neu sy'n rheolwr arno.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), at ddibenion y rheoliad hwn, priod gyfeiriad unrhyw berson y mae hysbysiad i'w gyflwyno iddo, fydd ei gyfeiriad hysbys diwethaf ac eithrio pan mai'r canlynol fydd y priod gyfeiriad—

- (a) yn achos corff corfforaethol neu ei ysgrifennydd neu ei glerc, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa y corff corfforaethol;
- (b) yn achos cymdeithas anghorfforaethol (ac eithrio partneriaeth) neu ei hysgrifennydd neu ei chlerc, cyfeiriad prif swyddfa'r gymdeithas; ac
- (c) yn achos partneriaeth (gan gynnwys partneriaeth Albanaidd) neu berson sy'n rheoli'r busnes partneriaeth neu sy'n rheolwr arno, cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth.

(5) Pan fo'r person y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno iddo yn gwmni sydd wedi'i gofrestru, neu'n bartneriaeth sy'n cynnal busnes, y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a bod gan y cwmni neu'r bartneriaeth swyddfa o fewn y Deyrnas Unedig, ei brif swyddfa o fewn y Deyrnas Unedig fydd prif swyddfa'r cwmni hwnnw neu'r bartneriaeth honno at ddibenion paragraff (4).

(6) Os yw'r person y mae unrhyw hysbysiad o'r fath i'w gyflwyno iddo wedi rhoi i'r person sydd i gyflwyno'r hysbysiad gyfeiriad yn unol ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, rhaid ymdrin â'r cyfeiriad hwnnw fel priod gyfeiriad y person y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno iddo at ddibenion y rheoliad hwn.

(7) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr “postio” (“*posting*”) mewn perthynas â hysbysiad yw ei anfon drwy ddull rhagdaledig drwy wasanaeth post sy'n ceisio danfon dogfennau drwy'r post o fewn y Deyrnas Unedig heb fod yn ddiweddarach na'r diwrnod gwaith nesaf ym mhob achos neu ran amlaf, a danfon dogfennau drwy'r post y tu allan i'r Deyrnas Unedig o fewn y cyfnod sy'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.

### Hysbysu o benderfyniadau

**69.** Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, mewn perthynas â chynnyrch neu lwyth, rhaid i'r person sy'n gwneud y penderfyniad hysbysu'r person sy'n gyfrifol dros y cynnyrch neu'r llwyth o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto yn ysgrifenedig, ynghyd â rhoi manylion ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad gan gynnwys y weithdrefn a'r terfynau amser sy'n gymwys.

## RHAN 13

### Datgymhwyso a Dirymu

#### Datgymhwyso'r darpariaethau sy'n bodoli eisoes

**70.**—(1) Ni fydd Gorchymyn Mewnforio Embryonau, Ofa a Semen 1980(27) yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, ac eithrio embryonau, ofau a semen rhywogaeth y ddafad a'r afr.

(2) Ni fydd Gorchymyn Mewnforio Cynhyrchion Anifeiliaid a Chynhyrchion Dofednod 1980(28) yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, ac eithrio'r cynhyrchion y cyfeirir atynt yn rheoliad 4(7) o'r Rheoliadau hyn.

(27) O.S. 1980/12, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1984/1326, 1990/2371, a 1994/2920.

(28) O.S. 1980/14, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1982/948, 1990/2371, 1994/2920 a 1994/3142, ac fel y'i darllenir gydag O.S. 1997/322.

- (3) Ni fydd y canlynol yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt—
- (a) Rheoliadau Mewnforio Semen Gwartheg 1984(29); a
  - (b) Gorchymyn Mewnforio Protein Anifeiliaid wedi'i Brosesu 1981(30).

### **Dirymu**

**71.** Dirymir Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005(31) drwy hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(32)

13 Chwefror 2007

*D. Elis-Thomas*  
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

---

(29) O.S. 1984/1325, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1966.

(30) O.S. 1981/677, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1982/459 ac O.S. 1990/2371.

(31) O.S. 2005/666 (Cy.56), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3395 (Cy. 271) ac O.S. 2006/767 (Cy.74).

(32) 1998 p.38.

ATODLEN 1

Rheoliadau 2, 4(7), 21, 36 a 37

Amodau Mewnforio

**RHAN I****DARPARIAETHAU SY'N GYFFREDIN I  
NIFER O GATEGORïAU O GYNNYRCH****Terfynau gweddillion uchaf halogion**

1. Rheoliad y Cyngor ([EEC Rhif 2377/90](#)) sy'n gosod gweithdrefn Gymunedol ar gyfer sefydlu terfynau gweddillion uchaf cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol mewn bwydydd sy'n dod o anifeiliaid (OJ Rhif L224, 18.8.90, t. 1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn ([EC Rhif 1451/2006](#)) (OJ Rhif L271, 30.9.2006, t.37).

2. Cyfarwydeb y Cyngor [96/23/EC](#) ar fesurau i fonitro sylweddau penodol a'u gweddillion mewn anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid ac yn dirymu Cyfarwyddbau [85/358/EEC](#) ac [86/469/EEC](#) a Penderfyniadau [89/187/EEC](#) a [91/664/EEC](#) (OJ Rhif L125, 23.5.96, t. 10) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn ([EC Rhif 882/2004](#)) Senedd Ewrop a'r Cyngor (gweler Corigendwm OJ Rhif L191, 28.5.2004, t. 1).

3. Rheoliad y Comisiwn ([EC Rhif 466/2001](#)) sy'n gosod lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn bwydydd (OJ Rhif L77, 16.3.2001, t. 1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn ([EC Rhif 199/2006](#)), (OJ Rhif L32, 4.2.2006, t. 34).

4. Penderfyniad y Comisiwn [2004/432/EC](#) ar gymeradwyo cynlluniau monitro gweddillion a ddanfonwyd gan drydydd gwledydd yn unol â Chyfarwydeb y Cyngor [96/23/EC](#) (OJ Rhif L154, 30.4.2004, t. 44) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2006/208/EC](#) (OJ Rhif L75, 14.3.2006, t. 20).

5. Penderfyniad y Comisiwn [2005/34/EC](#) sy'n gosod safonau wedi'u harmoneiddio ar gyfer profi am weddillion penodol mewn cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforir o drydydd gwledydd (OJ Rhif L16, 20.1.2005, t. 61).

**Enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy**

6. Rheoliad ([EC Rhif 999/2001](#)) Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a difodi enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol (OJ Rhif L147, 31.5.2001, t. 1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn ([EC Rhif 1041/2006](#)) (OJ Rhif L187, 8.7.2006, t. 10).

**Ardystiadau iechyd ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid o Seland Newydd**

7. Penderfyniad y Comisiwn [2003/56/EC](#) ar dystysgrifau iechyd ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid o Seland Newydd (OJ Rhif L22, 25.1.2003, t. 38) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2004/784/EC](#) (OJ Rhif L346, 23.11.2004, t. 11).

**Rheolau iechyd anifeiliaid ar fewnforion cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl**

8. Cyfarwydeb y Cyngor [2002/99/EC](#) sy'n gosod y rheolau iechyd anifeiliaid sy'n rheoli cynhyrchu, prosesu, dosbarthu a chyflwyno cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl (OJ Rhif L18, 23.1.2003, t. 11) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor ([EC Rhif 882/2004](#)) (OJ Rhif L191, 28.5.2004, t. 1).

9. Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (OJ Rhif L31, 1.2.2002, t. 1).

10. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 183/2005 (sy'n gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid (OJ Rhif L35, 8.2.2005, t. 1).

11. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 396/2005 ar lefelau uchaf plaleiddiaid mewn bwyd ac mewn bwyd anifeiliaid neu arnynt sy'n dod o blanhigion ac o anifeiliaid ac sy'n diwygio Cyfarwydddeb y Cyngor 91/414/EEC (OJ Rhif L70, 16.3.2005, t. 1) fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (EC) Rhif 178/2006 (OJ Rhif L29, 2.2.2006, t. 3).

### **Rheolau iechyd y cyhoedd ar fewnforion o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl**

12. Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid (OJ Rhif L139, 30.4.2004, t. 55) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 2076/2005 (OJ Rhif L338, 22.12.2005, t. 83).

13. Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl (OJ Rhif L139, 30.4.2004, t. 206) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) 2076/2005 (OJ Rhif L338, 22.12.2005, t. 83).

14. Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a ddefnyddir i sicrhau bod cydymffurfedd â'r gyfraith ynglyn â bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid yn cael ei wirio (OJ Rhif L191, 28.5.2004, t. 1).

15. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd (OJ Rhif L338, 22.12.2005, t. 1).

16. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n rhanddirymu Rheoliad 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) 853/2004 ac (EC) 854/2004 (OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.27).

17. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2075/2005 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer Trichinella mewn cig (OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.60).

18. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2076/2005 sy'n gosod trefniadau trosiannol ar gyfer gweithredu Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004, (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004 (OJ Rhif L338, 22.12.2005, t. 83).

## **RHAN II**

### **CIG FFRES O WARTHEG, DEFAID, GEIFR A MOCH**

#### **Trydydd gwledydd y caniateir mewnforio cig ffres ohonynt**

1. Penderfyniad y Cyngor 79/542/EEC sy'n llunio rhestr o drydydd gwledydd neu rannau o drydydd gwledydd, ac yn gosod yr amodau ynghylch iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ac ynghylch ardystiadau milfeddygol, ar gyfer mewnforio i'r Gymuned anifeiliaid byw penodol a'u cig ffres (OJ Rhif L146, 14.6.79, t. 15) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2006/463/EC (OJ Rhif L183, 5.7.2006, t. 20).

**Sefydliadau trydedd wlad y caniateir mewnforio cig ffres ohonynt**

2. Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 (gweler paragraff 13 o Ran I).
3. **Ariannin**— Penderfyniad y Comisiwn 81/91/EEC (OJ Rhif L58, 5.3.81, t. 39) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 86/392/EEC (OJ Rhif L228, 14.8.86, t. 44).
4. **Awstralia**— Penderfyniad y Comisiwn 83/384/EEC (OJ Rhif L222, 13.8.83 t. 36) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 86/389/EEC (OJ Rhif L228, 14.8.86, t. 34).
5. **Botswana**— Penderfyniad y Comisiwn 83/243/EEC (OJ Rhif L129, 19.5.83, t. 70).
6. **Brasil**— Penderfyniad y Comisiwn 81/713/EEC (OJ Rhif L257, 10.9.81, t. 28) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 89/282/EEC (OJ Rhif L110, 21.4.89, t. 54).
7. **Bwlgaria**— Penderfyniad y Comisiwn 87/735/EEC (OJ Rhif L311, 8.11.82, t. 16).
8. **Canada**— Penderfyniad y Comisiwn 87/258/EEC (OJ Rhif L121, 9.5.87, t. 50).
9. **Chile**— Penderfyniad y Comisiwn 87/124/EEC (OJ Rhif L51, 20.2.87, t. 41).
10. **Croatia**— Penderfyniad y Comisiwn 93/26/EEC (OJ Rhif L16, 25.1.93, t. 24).
11. **Ynysoedd Falkland** — Penderfyniad y Comisiwn 2002/987/EC (OJ Rhif L344, 19.12.2002, t. 39).
12. **Kaallit Nunaat (Greenland)**— Penderfyniad y Comisiwn 85/539/EEC (OJ Rhif L334, 12.12.85, t. 25).
13. **Gwlad yr Iâ**— Penderfyniad y Comisiwn 84/24/EEC (OJ Rhif L20, 25.1.84, t. 21).
14. **Cyn-weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia** — Penderfyniad y Comisiwn 95/45/EC (OJ Rhif L51, 8.3.95, t. 13).
15. **Madagascar**— Penderfyniad y Comisiwn 90/165/EEC (OJ Rhif L91, 6.4.90, t. 34).
16. **Mecsico**— Penderfyniad y Comisiwn 87/424/EEC (OJ Rhif L228, 15.8.87, t. 43).
17. **Moroco**— Penderfyniad y Comisiwn 86/65/EEC (OJ Rhif L72, 15.3.86, t. 40).
18. **Namibia**— Penderfyniad y Comisiwn 90/432/EEC (OJ Rhif L223, 18.8.90, t. 19).
19. **Caledonia Newydd** — Penderfyniad y Comisiwn 2004/628/EC (OJ Rhif L284, 3.9.2004, t. 4).
20. **Seland Newydd** — Penderfyniad y Comisiwn 83/402/EEC (OJ Rhif L223, 24.8.83, t. 24) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 86/432/EEC (OJ Rhif L253, 5.9.86, t. 28).
21. **Paraguay**— Penderfyniad y Comisiwn 83/423/EEC (OJ Rhif L238, 27.8.83, t. 39).
22. **Romania**— Penderfyniad y Comisiwn 83/218/EEC (OJ Rhif L121, 7.5.83, t. 23) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 86/289/EEC (OJ Rhif L182, 5.7.86, t. 25).
23. **De Affrica**— Penderfyniad y Comisiwn 82/913/EEC (OJ Rhif L381, 31.12.82, t. 28) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 90/433/EEC (OJ Rhif L223, 18.8.90, t. 21).
24. **Gwlad Swazi**— Penderfyniad y Comisiwn 82/814/EEC (OJ Rhif L343, 4.12.82, t. 24).
25. **Y Swistir**— Penderfyniad y Comisiwn 82/734/EEC (OJ Rhif L311, 8.11.82, t. 13) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 92/2/EEC (OJ Rhif L1, 4.1.92, t. 22).
26. **Unol Daleithiau America**— Penderfyniad y Comisiwn 87/257/EEC (OJ Rhif L121, 9.5.87, t. 46) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2000/138/EC (OJ Rhif L46, 18.2.2000, t. 36).
27. **Uruguay**— Penderfyniad y Comisiwn 81/92/EEC (OJ Rhif L58, 5.3.81, t. 43) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 86/485/EEC (OJ Rhif L282, 3.10.86, t. 31).

**28. Gweriniaeth Ffederal Iwgoslafia** — Penderfyniad y Comisiwn [98/8/EEC](#) (OJ Rhif L2, 6.1.98, t. 12).

**29. Zimbabwe**— Penderfyniad y Comisiwn [85/473/EEC](#) (OJ Rhif L278, 18.10.85, t. 35).

#### **Y gofynion o ran ardystiadau iechyd**

**30.** Penderfyniad y Cyngor [79/542/EEC](#) (gweler paragraff 1 o'r Rhan hon).

**31.** Canada (cig moch )— Penderfyniad y Comisiwn [2005/290/EC](#) ar dystysgrifau wedi'u symleiddio ar gyfer mewnforio semen buchol a chig moch ffres o Ganada ac yn diwygio Penderfyniad [2004/639/EC](#) (OJ Rhif L93, 12.4.2005, t. 34).

## **RHAN III**

### **CYNHYRCHION CIG**

#### **Trydydd gwledydd y caniateir mewnforio cynhyrchion ohonynt**

**1.** Penderfyniad y Comisiwn [2005/432/EC](#) sy'n gosod yr amodau iechyd anifeiliaid a iechyd y cyhoedd a thystysgrifau patrymol ar gyfer mewnforio cynhyrchion cig i'w bwyta gan bobl o drydydd gwledydd ac sy'n diddymu Penderfyniadau [97/41/EC](#), [97/221/EC](#) a [97/222/EC](#) (OJ Rhif L151, 14.6.2005, t. 3) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [2006/330/EC](#) (OJ Rhif L121, 6.5.2006, t. 43).

#### **Sefydliadau trydydd gwledydd y caniateir mewnforio cynhyrchion cig ohonynt**

**2. Ariannin**— Penderfyniad y Comisiwn [86/414/EEC](#) (OJ Rhif L237, 23.8.86, t. 36) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [97/397/EC](#) (OJ Rhif L165, 24.6.97, t. 13).

**3. Botswana**— Penderfyniad y Comisiwn [94/465/EC](#) (OJ Rhif L190, 26.7.94, t. 25).

**4. Brasil**— Penderfyniad y Comisiwn [87/119/EC](#) (OJ Rhif L49, 18.2.87, t. 37) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [95/236/EC](#) (OJ Rhif L156, 7.7.95, t. 85).

**5. Namibia**— Penderfyniad y Comisiwn [95/427/EC](#) (OJ. Rhif L254, 24.10.95, t. 28).

**6. Uruguay**— Penderfyniad y Comisiwn [86/473/EEC](#) (OJ Rhif L279, 30.9.86, t. 53) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [96/466/EC](#) (OJ Rhif L192, 2.8.96, t. 25).

**7. Zimbabwe**— Penderfyniad y Comisiwn [94/40/EC](#) (OJ Rhif L22, 27.1.94, t. 50).

**8. Trydydd gwledydd amrywiol**— Penderfyniad y Comisiwn [97/365/EC](#) (OJ Rhif L154, 12.6.97, t. 41) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2004/380/EC](#) (OJ Rhif L144, 30.4.2004, t. 5).

**9. Trydydd gwledydd amrywiol**— Penderfyniad y Comisiwn [97/569/EC](#) (OJ Rhif L234, 26.8.97, t. 16) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2005/787/EC](#) (OJ Rhif L296, 12.11.2005, t. 39).

#### **Y gofynion o ran ardystiadau iechyd**

**10.** Penderfyniad y Comisiwn [2005/432/EC](#) (gweler paragraff 1 o'r Rhan hon).

## RHAN IV

### LLAETH A CHYNHYRCHION LLAETH

#### Cyffredinol

1. Penderfyniad y Comisiwn [2004/438/EC](#) sy'n gosod yr amodau ynghylch iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ac ynghylch ardystiadau milfeddygol, ar gyfer cyflwyno i'r Gymuned laeth a gafodd ei drin â gwres, cynhyrchion seiliedig ar laeth a llaeth amrwd a fwriedir ar gyfer ei fwyta gan bobl (OJ Rhif L154, 30.4.2004, t. 72) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [2006/295/EC](#) (OJ Rhif L108, 21.4.2006, t. 108).

#### Trydydd gwledydd y caniateir mewnforio llaeth a chynhyrchion llaeth ohonynt

2. Penderfyniad y Comisiwn [2004/438/EC](#) (gweler paragraff 1 o'r Rhan hon).

#### Sefydliadau trydydd gwledydd y caniateir mewnforio llaeth a chynhyrchion llaeth ohonynt

3. Penderfyniad y Comisiwn [97/252/EC](#) (OJ Rhif L101, 18.4.97, t. 46) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2004/807/EC](#) (OJ Rhif L354, 30.11.2004, t. 32).

## RHAN V

### CIG DOFEDNOD FFRES

#### Cyffredinol

1. Penderfyniad y Comisiwn [93/342/EC](#) sy'n gosod meini prawf ar gyfer dosbarthu trydydd gwledydd mewn perthynas â fflw adar a Chlefyd Newcastle (OJ Rhif L137, 8.6.93 t. 24) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [94/438/EC](#) (OJ Rhif L181, 15.7.94, t. 35).

#### Trydydd gwledydd y caniateir mewnforio cig dofednod ffres ohonynt

2. Penderfyniad y Comisiwn [94/85/EC](#) (OJ Rhif L44, 17.2.94, t. 31) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2004/118/EC](#) (OJ Rhif L36, 7.2.2004, t. 34).

#### Sefydliadau trydydd gwledydd y caniateir mewnforio cig dofednod ffres ohonynt

3. Penderfyniad y Comisiwn [97/4/EC](#) (OJ Rhif L2, 4.1.97, t. 6) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan yr Act ynghylch amodau derbyn y Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithwania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofenia a Gweriniaeth Slofacia, a chan addasiadau i'r Cytuniadau sy'n sail i'r Undeb Ewropeaidd (OJ Rhif L236, 23.9.2003, t. 33) ("yr Act Ymaelodi").

#### Y gofynion o ran ardystiadau iechyd

4. Penderfyniad y Comisiwn [94/984/EC](#) (OJ Rhif L378, 31.12.94, t. 11) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2004/436/EC](#) (OJ Rhif L154, 30.4.2004, t. 59).

## RHAN VI

### CIG ANIFEILIAID HELA GWYLLT

#### Cyffredinol

1. Penderfyniad y Comisiwn [2000/585/EC](#) sy'n llunio rhestr o drydydd gwledydd y mae Aelod-wladwriaethau'n awdurdodi mewnforio cig cwningen a chig penodol sy'n dod o anifeiliaid hela gwyllt ac o anifeiliaid hela a ffermir, ac sy'n gosod amodau ynghylch iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ac ynghylch ardystiadau milfeddygol ar gyfer mewnforio'r cig hwn (OJ Rhif L251, 6.10.2000, t. 1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2004/413/EC](#) (OJ Rhif L151, 30.4.2004, t. 54).

#### Sefydliadau trydydd gwledydd y caniateir mewnforio cig anifeiliaid hela ohonynt

2. Penderfyniad y Comisiwn [97/468/EC](#) (OJ Rhif L199, 26.7.97, t. 62) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan yr Act Ymaelodi (paragraff 3 o Ran V).

## RHAN VII

### BRIWGIG A PHARATOADAU CIG

#### Y gofynion o ran ardystiadau iechyd

1. Penderfyniad y Comisiwn [2000/572/EC](#) (OJ Rhif L240, 23.9.2000, t. 19) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2004/437/EC](#) (OJ Rhif L154, 30.4.2004, t. 65) (paratodau cig).

2. Penderfyniad y Cyngor [79/542/EEC](#) (paragraff 1 o Ran II) (briwgig).

#### Sefydliadau trydydd gwledydd y caniateir mewnforio briwgig a pharatodau cig ohonynt

3. Penderfyniad y Comisiwn [99/710/EC](#) (OJ Rhif L281, 4.11.99, t. 82) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2005/156/EC](#) (OJ Rhif L51, 24.2.2005, t. 26).

## RHAN VIII

### CYNHYRCHION AMRYWIOL

#### Cyffredinol

1. Cyfarwyddeb y Cyngor [92/118/EEC](#) sy'n gosod gofynion iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd sy'n llywodraethu'r fasnach mewn cynhyrchion yn y Gymuned nad ydynt yn ddarostyngedig i'r gofynion a enwyd, sef gofynion a osodwyd mewn rheolau Cymunedol penodol y cyfeirir atynt yn Atodiad A (1) i Gyfarwyddeb [89/662/EEC](#) ac, o ran pathogenau, i Gyfarwyddeb [90/425/EEC](#) (OJ Rhif L62, 15.3.93, t. L49) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn [2004/41/EC](#) (OJ Rhif L195, 2.6.2004, t. 12) ac sy'n llywodraethu mewnforio'r cynhyrchion hynny iddi.

2. Penderfyniad y Comisiwn [2000/609/EC](#) sy'n gosod amodau ynghylch iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ac ynghylch ardystiadau milfeddygol ar gyfer mewnforio cig adar di-gêl a ffermir ac sy'n diwygio Penderfyniad [94/85/EC](#) sy'n llunio rhestr o drydydd gwledydd y mae Aelod-

wladwriaethau yn awdurdodi mewnforio cig dofednod ffres ohonynt (OJ Rhif L258, 12.10.2000, t. 49) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2005/804/EC](#) (OJ Rhif L303, 22.11.2005, t. 56).

3. Penderfyniad y Comisiwn [2005/760/EC](#) sy'n ymwneud â mesurau gwarchod penodol mewn perthynas â fflw adar pathogenig iawn mewn gwledydd trydydd byd penodol ar gyfer mewnforio adar caeth (OJ Rhif L285, 28.10.2005, t. 60) (i'r graddau y mae'n ymwneud â chynhyrchion sy'n deillio o'r adar hynny), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2006/522/EC](#) (OJ Rhif L205, 27.7.2006, t. 28).

### **Trydydd gwledydd y caniateir mewnforio ohonynt gynhyrchion y mae Cyfarwyddeb y Cyngor [92/118/EEC](#) yn ymdrin â hwy**

4. Penderfyniad y Comisiwn [2003/812/EC](#) (OJ Rhif L305, 22.11.2003, t. 17) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [2004/19/EC](#) (OJ Rhif L5, 9.1.2004, t. 84).

